



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 3368 (Cy.265)

2005 No. 3368 (W.265)

AMAETHYDDIAETH

AGRICULTURE

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Hylendid a Gorfodi) (Cymru)
2005**

**The Feed (Hygiene and
Enforcement) (Wales) Regulations
2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid (OJ Rhif L25, 8.2.2005, t.1), ("Rheoliad 183/2005") a Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ym materion diogelwch bwyd (OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1), ("Rheoliad 178/2002"), a hefyd yn gwneud darpariaethau ynglŷn â gweinyddu cyffredinol, yn arbennig er mwyn rhoi effaith i Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â rheolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y dilysir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1), ("Rheoliad 882/2004").

2. Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â gweithredu a gorfodi Rheoliad 183/2005, sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 95/69/EC a Chyfarwyddeb y Comisiwn 98/51/EC. (Gweithredwyd y Cyfarwyddebau hynny yn y Deyrnas Unedig drwy Reoliadau Porthiant (Sefydliadau a Chyfyngwyr) 1999 (O.S.1999/1872) yn bennaf.) Mae Rheoliad 183/2005 yn darparu y dylai bron pob busnes sy'n cynhyrchu bwyd anifeiliaid, yn masnachu ynddo neu'n ei ddefnyddio, naill ai gael ei gofrestru, neu fel y digwydd, ei gymeradwyo, gan yr awdurdodau cynwys. Nodir y gweithgareddau sydd wedi'u heithrio nad yw Rheoliad 183/2005, ac o ganlyniad, Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn, yn gymwys iddynt yn Erthygl 2 o Reoliad y CE ac maent yn cynnwys-

1. These Regulations, which apply in relation to Wales, provide for the execution and enforcement of Regulation (EC) No 183/2005 of the European Parliament and of the Council laying down requirements for feed hygiene (OJ No. L25, 8.2.2005, p.1), ("Regulation 183/2005") and Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety (OJ No. L31, 1.2.2002, p.1), ("Regulation 178/2002"), and also make provision as to administration generally, in particular so as to give effect to Regulation (EC) No 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules (OJ No. L191, 28.5.2004, p.1), ("Regulation 882/2004").

2. Part 2 of these Regulations deals with the execution and enforcement of Regulation 183/2005, which repeals Council Directive 95/69/EC and Commission Directive 98/51/EC. (Those Directives were largely implemented in the United Kingdom by the Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) Regulations 1999 (S.I.1999/1872)). Regulation 183/2005 provides that almost all businesses producing, trading in or using animal feed should be either registered, or as the case may be approved, by the competent authorities. The excepted activities to which Regulation 183/2005, and consequently Part 2 of these Regulations, do not apply, are set out in Article 2 of the EC Regulation and include-

- (a) cynhyrchu'n breifat yn y cartref fwyd ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cael eu cadw ar gyfer eu bwyta neu a gedwir ar gyfer eu bwyta'n breifat yn y cartref yn unig;
- (b) bwydo anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd;
- (c) bwydo anifeiliaid a gedwir ar gyfer eu bwyta'n breifat yn y cartref neu ar gyfer cyflenwi'n uniongyrchol feintiau bychain o gynhyrchion crai gan y cynhyrchydd i'r defnyddiwr terfynol neu fanwerthwyr lleol;
- (ch) cyflenwi'n uniongyrchol, gan y cynhyrchydd, feintiau bychain o fwyd anifeiliaid a gynhyrchir drwy broses sylfaenol, i ffermydd lleol i'w ddefnyddio ar y ffermydd hynny;
- (d) manwerthu bwyd anifeiliaid anwes.

3. Yn benodol gwneir darpariaeth yn Rhan 2 i-

- (a) dynodi'r awdurdodau cymwys at ddibenion yr amrywiol swyddogaethau y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 183/2005 (rheoliad 4);
- (b) nodi'r darpariaethau hynny o Reoliad 183/2005 pan fo methiant i gydymffurfio yn arwain at dramgwydd, a chysylltu cosbau â'r tramgwyddau hynny (rheoliad 5);
- (c) nodi'r gofynion y mae'n rhaid iddynt gael eu dilyn gan unrhyw un-
 - (i) sy'n hysbysu'r awdurdod gorfodi gyda'r bwriad o gofrestru sefydliad busnes bwyd anifeiliaid (rheoliad 6);
 - (ii) sy'n gwneud datganiad o gydymffurfiaeth ag amodau Rheoliad 183/2005 (rheoliad 7); neu
 - (iii) sy'n gwneud cais am gymeradwyo sefydliad busnes bwyd anifeiliaid (rheoliad 8);
- (ch) yn gosod y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan awdurdod gorfodi wrth-
 - (i) atal dros dro gofrestrriad neu gymeradwyaeth sefydliad busnes bwyd anifeiliaid (rheoliad 9);
 - (ii) codi ataliad dros dros ar gofrestrriad neu gymeradwyaeth (rheoliad 10); neu
 - (iii) dirymu cofrestrriad neu gymeradwyaeth sefydliad busnes bwyd anifeiliaid (rheoliad 11);
- (d) gosod y gofynion sydd i'w dilyn gan unrhyw un sy'n gwneud cais i ddiwygio cofrestrriad neu gymeradwyaeth (rheoliad 12);
- (dd) darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud â chofrestrriadau neu gymeradwyaethau a wneir gan awdurdodau gorfodi (rheoliad 13); a

- (a) the private domestic production of feed for animals not kept for consumption, or kept for private domestic consumption only;
- (b) the feeding of non food-producing animals;
- (c) the feeding of animals kept for private domestic consumption or for direct supply, by the producer, of small quantities of primary products to the final consumer or to local retailers;
- (d) the direct supply, by the producer, of small quantities of primary produced feed to local farms for use on those farms;
- (e) the retailing of pet food.

3. In particular provision is made in Part 2 to-

- (a) designate the competent authorities for the purposes of the various functions mentioned in Regulation 183/2005 (regulation 4);
- (b) identify those provisions of Regulation 183/2005 where failure to comply gives rise to an offence, and attach penalties to those offences (regulation 5);
- (c) set out the requirements which must be observed by anyone-
 - (i) notifying the enforcement authority with a view to registering a feed business establishment (regulation 6);
 - (ii) making a declaration of compliance with the conditions of Regulation 183/2005 (regulation 7); or
 - (iii) applying for approval of a feed business establishment (regulation 8);
- (d) lay down the procedures to be followed by an enforcement authority when-
 - (i) suspending the registration or approval of a feed business establishment (regulation 9);
 - (ii) lifting the suspension of a registration or approval (regulation 10); or
 - (iii) revoking the registration or approval of a feed business establishment (regulation 11);
- (e) set out the requirements to be observed by anyone applying for an amendment to a registration or approval (regulation 12);
- (f) provide for a right of appeal against decisions relating to registrations or approvals taken by enforcement authorities (regulation 13); and

- (e) pennu'r ffioedd sy'n daladwy gan ymgeisydd ar gyfer cymeradwyo neu ddiwygio cymeradwyaeth (rheoliad 14 ac Atodlen 2).

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn Rhan 3 yn dirymu ac yn ail-ddeddfu gyda mân ddiwygiadau y darpariaethau a geid gynt yn Rheoliadau Porthiant (Gofynion Diogelwch ar gyfer Bwyd ar gyfer Anifeiliaid sy'n Cynhyrchu Bwyd) 2004 (O.S. 2004/3254) a ddarparodd ar gyfer gweithredu a gorfodi gofynion diogelwch o ran bwyd anifeiliaid a geir yn Rheoliad 178/2002.

5. Nid yw'r darpariaethau yn Rhan 3 ond yn gymwys i fwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, ac maent yn ei gwneud yn dramgwydd i dorri amrywiol ddarpariaethau penodedig Rheoliad 178/2002 (rheoliad 15). Y darpariaethau penodedig hynny yw-

- (a) Erthygl 12, sy'n pennu o dan ba amodau y gellir allforio bwyd anifeiliaid o Aelod-wladwriaethau i wledydd y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd;
- (b) Erthygl 15, sy'n gwahardd marchnata neu fwydo bwyd anifeiliaid anniogel;
- (c) Erthygl 16, sy'n mynnu bod yn rhaid i fwyd beidio â chael ei hysbysebu, ei labelu, ei becynnu neu ei gyflwyno fel arall yn y cyfryw fodd ag sy'n camarwain cwsmeriaid;
- (ch) Erthygl 18, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnes bwyd anifeiliaid roi systemau ar waith sy'n ei alluogi i nodi'r person y mae wedi caffael cynnyrch ganddo a'r person y mae'n cyflenwi unrhyw gynnyrch iddo; ac
- (d) Erthygl 20, sy'n gosod amrywiol gyfrifoldebau gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid, gan gynnwys y ddyletswydd i dynnu bwyd anifeiliaid anniogel yn ôl neu ei adalw, ei ddinistrio os cred yr awdurdod cymwys fod hynny'n angenrheidiol, a throsglwyddo pob darn o wybodaeth berthnasol a chydweithredu'n gyffredinol â'r awdurdod cymwys ac eraill er budd diogelwch bwyd anifeiliaid.

6. Mae'r Rheoliadau hyn yn Rhan 4 yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi'r gyfraith ynglŷn â bwyd anifeiliaid a geir mewn nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth fel y'u rhestrir yn Atodlen 1. Wrth wneud hynny mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999 (O.S. 1999/2325), yn ail-ddeddfu gyda diwygiadau y rhan fwyaf o'r darpariaethau a geir yn y Rheoliadau hynny, ac yn cyflwyno darpariaethau eraill sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion Rheoliad 882/2004. Diddymodd y Rheoliad hwnnw gan y CE Gyfarwyddeb y Cyngor 95/53/EC sy'n gosod yr egwyddorion sy'n rheoli trefnu archwiliadau swyddogol ym maes maeth anifeiliaid, sef Cyfarwyddeb a weithredwyd yn rhannol gan O.S. 1999/2325 y cyfeirir ato uchod.

- (g) specify the fees payable by an applicant for approval or amendment to an approval (regulation 14 and Schedule 2).

4. These Regulations in Part 3 revoke and re-enact with minor amendments the provisions formerly contained in the Feeding Stuffs (Safety Requirements for Feed for Food-Producing Animals) Regulations 2004 (S.I. 2004/3254) which provided for the execution and enforcement of the feed safety requirements of Regulation 178/2002.

5. The provisions in Part 3 apply only to feed for food-producing animals, and make it an offence to contravene various specified provisions of Regulation 178/2002 (regulation 15). Those specified provisions are-

- (a) Article 12, which specifies the conditions under which feed may be exported from Member States to countries outside the European Community;
- (b) Article 15, which prohibits the marketing or feeding of unsafe feed;
- (c) Article 16, which stipulates that feed must not be advertised, labelled, packaged or otherwise presented in such a way as to mislead consumers;
- (d) Article 18, which requires a feed businesses to have systems in place that enable it to identify the person from whom it acquired a product and the person to whom it supplied any product; and
- (e) Article 20, which sets out the various responsibilities of feed business operators, including the duty to withdraw or recall unsafe feed, to destroy it if considered necessary by the competent authority, and to pass on all relevant information and co-operate generally with the competent authority and others in the interests of feed safety.

6. These Regulations in Part 4 provide for the administration and enforcement of the law relating to animal feed contained in a number of pieces of legislation as listed in Schedule 1. In so doing these Regulations revoke the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999 (S.I. 1999/2325), re-enact with amendments most of the provisions contained in those Regulations, and introduce further provisions needed to comply with the requirements of Regulation 882/2004. That EC Regulation repealed Council Directive 95/53/EC fixing the principles governing the organisation of official inspections in the field of animal nutrition, a Directive that was implemented in part by S.I. 1999/2325 mentioned above.

7. Yn benodol mae Rhan 4-

- (a) yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiad gwella os ymddengys i'r awdurdod gorfodi fod busnes bwyd anifeiliaid yn methu â chydymffurfio â chyfraith bwyd (rheoliad 17);
- (b) yn darparu ar gyfer hawl i apelio i lys yr ynadon yn erbyn hysbysiad gwella, ac yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn (rheoliad 18);
- (c) yn caniatáu apêl i lys y Goron yn erbyn penderfyniad gan lys ynadon o dan ddarpariaethau penodol y Rheoliadau hyn (rheoliad 19);
- (ch) yn pennu pan fo apêl yn cael ei chyflwyno yn erbyn hysbysiad gwella, bod y cyfnod a bennwyd yn yr hysbysiad yn peidio â pharhau tra bod yr apêl yn mynd rhagddi (rheoliad 20);
- (d) yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle y caiff llys osod gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid, a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn (rheoliad 21);
- (dd) yn darparu i'r awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad gwahardd brys, i'w gadarnhau ai peidio yn ôl y digwydd gan y llys o fewn cyfnod penodedig (rheoliad 22);
- (e) yn pennu'r cosbau sy'n gymwys i dramgwyddau mewn perthynas â hysbysiadau gwella, gorchymynion gwahardd, hysbysiadau gwahardd brys a gorchymynion gwahardd brys (rheoliad 23);
- (f) yn darparu ar gyfer y pwerau sydd eu hangen i alluogi swyddogion awdurdodedig awdurdodau gorfodi i fynd i mewn i fangreodd, archwilio bwydydd anifeiliaid, peiriannau ac offer, cofnodion dogfennol etc, a chymryd samplau o fwyd anifeiliaid a chopïau o gofnodion (rheoliad 24);
- (ff) yn rhoi'r pŵer i swyddogion awdurdodedig atafaelu a chadw bwyd anifeiliaid yr ymddengys nad yw'n cydymffurfio â chyfraith bwyd, ac yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth ddwyn y mater gerbron llys yr ynadon (rheoliad 25);
- (g) yn pennu'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth gyflwyno hysbysiad o dan y Rheoliadau hyn (rheoliad 26);
- (ng) yn nodi'r tramgwyddau penodol yn ymwneud ag arfer pwerau swyddog awdurdodedig, gan gynnwys rhwystro swyddog neu ffugio bod yn swyddog, neu ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol gan swyddog (rheoliad 27); a
- (h) yn darparu i awdurdod gorfodi adennill gwariant yr eir iddo o ganlyniad i fethiant busnes bwyd anifeiliaid i gydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid (rheoliad 28).

7. In particular Part 4-

- (a) makes provision for the serving of an improvement notice where a feed business appears to the enforcement authority to be falling short of compliance with feed law (regulation 17);
- (b) provides for a right of appeal to the magistrates' court against an improvement notice, and sets out the procedures to be followed (regulation 18);
- (c) allows for the decision of a magistrates' court under certain provisions of these Regulations to be appealed to the Crown court (regulation 19);
- (d) specifies that where an appeal is lodged against an improvement notice, the period specified in the notice ceases to run while the appeal is in progress (regulation 20);
- (e) provides for the circumstances in which a feed business prohibition order may be imposed by a court, and the procedures to be followed (regulation 21);
- (f) provides for the service of an emergency prohibition notice by the enforcement authority, to be confirmed or not as the case may be by the court within a specified period (regulation 22);
- (g) specifies the penalties applicable to offences in relation to improvement notices, prohibition orders, emergency prohibition notices and emergency prohibition orders (regulation 23);
- (h) makes provision for the necessary powers to enable authorised officers of enforcement authorities to enter premises, inspect animal feeds, plant and equipment, documentary records etc, and take samples of feed and copies of records (regulation 24);
- (i) provides authorised officers with the power to seize and detain animal feed which appears not to comply with feed law, and sets out the procedure to be followed in bringing the matter before the magistrates' court (regulation 25);
- (j) specifies the procedures to be followed when serving notice under these Regulations (regulation 26);
- (k) sets out certain offences relating to the exercise of an authorised officer's powers, including obstruction or impersonation of an officer, or disclosure of confidential information by an officer (regulation 27); and
- (l) makes provision for the recovery by an enforcement authority of expenditure incurred in consequence of a feed business's non-compliance with feed law (regulation 28).

8. Yn Rhan 4, mae'r Rheoliadau hyn hefyd-

- (a) yn cymhwyso, fel y'u haddaswyd, amrywiol ddarpariaethau Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 (O.S. 1999/1663), (rheoliad 29);
- (b) yn gosod gweithdrefnau yn ymwneud â dadansoddi sampl o fwyd anifeiliaid a gymerwyd gan swyddog awdurdodedig (rheoliad 30), ac ail sampl gan labordy Cemegydd y Llywodraeth (rheoliad 31);
- (c) yn gwneud darpariaethau cyffredinol pellach yn ymwneud â samplu a dadansoddi gan gynnwys y tramgwydd o ymyrryd â sampl (rheoliad 32);
- (ch) yn pennu'r amgylchiadau lle y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi personau i weithredu yn lle swyddogion awdurdodedig (rheoliad 33(1)), ac yn gosod amodau ar swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu y tu allan i'w ardal (rheoliad 33(2));
- (d) yn darparu ar gyfer cyfyngiadau ar atebolrwydd swyddog awdurdodedig neu ddadansoddwr amaethyddol (rheoliad 34);
- (dd) yn gwneud darpariaethau yn ymwneud ag amrywiol amddiffyniadau i dramgwyddau o dan y Rheoliadau hyn (rheoliad 35);
- (e) yn darparu ar gyfer atebolrwydd personol potensial swyddogion o gyrff corfforaethol neu bartneriaid mewn partneriaethau yn yr Alban sy'n mynd yn groes i'r Rheoliadau hyn (rheoliad 36);
- (f) yn pennu ym mha le y gellir cymryd camau cyfreithiol a'r terfynau amser ar gyfer cychwyn erlyniadau (rheoliad 37); a
- (ff) yn dirymu'r Rheoliadau hynny neu'r rhannau o'r Rheoliadau hynny a restrir yn Atodlen 3 (rheoliad 38).

9. Mae Arfarniad Rheoliadd llawn am yr effaith a gaff y Rheoliadau hyn ar gostau busnes wedi'i baratoi a'i osod yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copiau ohono oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

8. In Part 4, these Regulations additionally-

- (a) apply, as modified, various provisions of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 (S.I. 1999/1663), (regulation 29);
- (b) lay down procedures relating to the analysis of a feed sample taken by an authorised officer (regulation 30), and to secondary sampling by the laboratory of the Government Chemist (regulation 31);
- (c) make further general provisions relating to sampling and analysis including the offence of tampering with a sample (regulation 32);
- (d) specify the circumstances in which the National Assembly for Wales may appoint persons to act in place of authorised officers (regulation 33(1)), and place conditions on an authorised officer acting outside his or her area (regulation 33(2));
- (e) provide for limitations on the liability of an authorised officer or agricultural analyst (regulation 34);
- (f) make provisions relating to various defences to offences under these Regulations (regulation 35);
- (g) provide for the potential personal liability of officers of corporate bodies or partners in Scottish partnerships that contravene these Regulations (regulation 36);
- (h) specify the place where legal proceedings may be taken and the time limits for the initiation of prosecutions (regulation 37); and
- (i) revoke those Regulations or parts of Regulations listed in Schedule 3 (regulation 38).

9. A full Regulatory Appraisal on the effect that these Regulations will have on the costs of business has been prepared and placed in the Library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

2005 Rhif 3368 (Cy.265)**2005 No. 3368 (W.265)****AMAETHYDDIAETH****AGRICULTURE****Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid
(Hylendid a Gorfodi) (Cymru)
2005****The Feed (Hygiene and
Enforcement) (Wales) Regulations
2005***Wedi'u gwneud* 6 Rhagfyr 2005*Made* 6 December 2005*Yn dod i rym* 1 Ionawr 2006*Coming into force* 1 January 2006

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN 1**PART 1**

Rhagarweiniol

Preliminary

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli

1. Title, application and commencement
2. Interpretation

RHAN 2**PART 2**

Gorfodi Rheoliad 183/2005

Enforcement of Regulation 183/2005

3. Cwmpas a dehongli Rhan 2
4. Awdurdodau cymwys
5. Tramgwyddau a chosbau
6. Ffurf yr hysbysiad gyda'r bwriad o gofrestru
7. Ffurf y datganiad mewn perthynas â mesurau trosiannol
8. Ffurf y cais sydd i'w gymeradwyo
9. Gweithdrefn ar gyfer atal dros dro gofrestriad neu gymeradwyaeth
10. Gweithdrefn ar gyfer codi ataliad dros dro
11. Gweithdrefn ar gyfer dirymu cofrestriad neu gymeradwyaeth
12. Ffurf y cais ar gyfer diwygio cymeradwyaeth neu gofrestriad
13. Hawl i apelio yn erbyn ataliad cofrestru dros dro neu ei ddirymu
14. Ffioedd ar gyfer cymeradwyaethau neu ddiwygio cymeradwyaethau

3. Scope and interpretation of Part 2
4. Competent authorities
5. Offences and penalties
6. Form of notification with a view to registration
7. Form of declaration in relation to transitional measures
8. Form of application for approval
9. Procedure for suspension of registration or approval
10. Procedure for lifting of suspension
11. Procedure for the revocation of registration or approval
12. Form of application for amendments to approval or registration
13. Right of appeal against suspension or revocation of registration
14. Fees for approvals or amendments to approvals

RHAN 3

Gorfodi Rheoliad 178/2002

15. Tramgwyddau, cosbau a gorfodi

RHAN 4

Gweinyddu a Gorfodi yn Gyffredinol

16. Gorfodi
17. Hysbysiadau gwella busnes bwyd anifeiliaid
18. Hawl i apelio yn erbyn hysbysiadau gwella busnes bwyd anifeiliaid
19. Apelau i Lys y Goron
20. Camau sy'n deillio o apelau
21. Gorchmynion gwahardd busnes bwyd anifeiliaid
22. Hysbysiadau a gorchmynion gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid
23. Cosbau am dramgwyddau mewn perthynas â hysbysiadau gwella, gorchmynion gwahardd etc
24. Pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig
25. Archwilio, atafaelu a chadw bwyd anifeiliaid a amheuir
26. Cyflwyno hysbysiadau
27. Tramgwyddau yn ymwneud ag arfer pwerau gan swyddogion awdurdodedig
28. Atebolrwydd am wariant
29. Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi)
30. Y weithdrefn yn ymwneud â samplau i'w dadansoddi
31. Ail samplu gan Gemegydd y Llywodraeth
32. Darpariaethau ychwanegol yn ymwneud â samplu a dadansoddi
33. Pwerau diodyn y Cynulliad ac ardal pwerau'r swyddog awdurdodedig
34. Diogelu swyddogion awdurdodedig sy'n gweithredu'n ddidwyll
35. Amddiffyniadau o fethiant person arall, camgymeriad etc ac allforio
36. Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol neu bartneriaethau yn yr Alban
37. Dwyn erlyniadau a therfyn amser ar gyfer erlyniadau
38. Dirymiadau

PART 3

Enforcement of Regulation 178/2002

15. Offences, penalties and enforcement

PART 4

Administration and Enforcement Generally

16. Enforcement
17. Feed business improvement notices
18. Right of appeal against feed business improvement notices
19. Appeals to Crown Court
20. Actions resulting from appeals
21. Feed business prohibition orders
22. Feed business emergency prohibition notices and orders
23. Penalties for offences in relation to improvement notices, prohibition orders etc
24. Powers of entry for authorised officers
25. Inspection, seizure and detention of suspect feed
26. Service of Notices
27. Offences relating to the exercise of powers by authorised officers
28. Liability for expenditure
29. Application of various provisions of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations
30. Procedure relating to samples for analysis
31. Secondary sampling by the Government Chemist
32. Additional provisions relating to sampling and analysis
33. Assembly's default powers and area of authorised officer's powers
34. Protection of authorised officers acting in good faith
35. Defences of fault of another person, mistake etc and export
36. Offences by corporate bodies or Scottish partnerships
37. Institution of and time limit for prosecutions
38. Revocations

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Rheoliad 2

Regulation 2

CYFRAITH BWYD ANIFEILIAID
BENODEDIG

SPECIFIED FEED
LAW

ATODLEN 2

SCHEDULE 2

Rheoliad 38

Regulation 38

DIRYMIADAU

REVOCATIONS

ATODLEN 3

SCHEDULE 3

Rheoliad 14

Regulation 14

FFIOEDD SY'N DALADWY AM
GYMERADWYAETHAU

FEEES PAYABLE FOR
APPROVALS

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) mewn perthynas â mesurau yn y maes milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(2), polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(3) a mesurau yn ymwneud â bwyd a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd(4), wrth arfer y pwerau a roddwyd yn rhinwedd yr adran 2(2) ddywededig ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(5) neu fel y bo'n briodol Erthygl 9 o Reoliadau (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(6) yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a gosod gweithdrefnau ym materion diogelwch bwyd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, being designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) in relation to measures in the veterinary field for the protection of public health(2), the common agricultural policy of the European Community(3) and measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(4), in exercise of the powers conferred by the said section 2(2) and after consultation as required by section 84(1) of the Agriculture Act 1970(5) or as appropriate by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(6) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety, makes the following Regulations:

(1) 1972 p. 68.

(2) O.S. 2003/1246.

(3) O.S. 2005/2766.

(4) O.S. 2005/1971.

(5) 1970 p. 40.

(6) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(1) 1972 c. 68.

(2) S.I. 2003/1246.

(3) S.I. 2005/2766.

(4) S.I. 2005/1971.

(5) 1970 c. 40.

(6) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 of the European Parliament and of the Council (OJ No. L245, 29.9.2003, p.4).

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ionawr 2006.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

ystyr "awdurdod bwyd anifeiliaid" ("*feed authority*") yw awdurdod y nodwyd yn adran 67(1A) o'r Ddeddf bod ganddo'r ddyletswydd i orfodi Rhan IV o'r Ddeddf honno o fewn ei ardal;

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw'r corff y nodwyd bod ganddo ddyletswydd i orfodi o dan reoliad 16;

ystyr "cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig" ("*specified feed law*") yw'r Ddeddf a'r Rheoliadau a restrir yn Atodlen 1;

mae i "cyfran a samplwyd" ("*sampled portion*") yr ystyr a roddwyd yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "dadansoddwr amaethyddol" ("*agricultural analyst*") yw dadansoddwr amaethyddol a benodir o dan adran 67 o'r Ddeddf, ac mae'n cynnwys dirprwy ddadansoddwr a benodir ar gyfer yr un ardal;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Amaethyddiaeth 1970 (1);

ystyr "labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4" ("*point 4 compliant laboratory*") yw labordy sy'n cydymffurfio â'r pedwerydd a'r pumed indent o Atodiad II i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/70/EC sy'n gosod gofynion i benderfynu ar lefelau diocsinau a deuffenylau polychlorinedig sy'n debyg i ddiocsinau mewn bwyd anifeiliaid(2);

(1) 1970 p. 40.

(2) O.J. Rhif L209, 6.8.2002, t.15.

PART 1

Preliminary

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005; they apply in relation to Wales and come into force on 1 January 2006.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Agriculture Act 1970(1);

"the Agency" ("*yr Asiantaeth*") means the Food Standards Agency;

"agricultural analyst" ("*dadansoddwr amaethyddol*") means an agricultural analyst appointed under section 67 of the Act, and includes a deputy analyst appointed for the same area;

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means a person (whether or not an officer of the enforcement authority) who is authorised by or the enforcement authority, either generally or specially, to act in relation to matters arising under these Regulations;

"enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi*") means the body identified as having the duty to enforce under regulation 16;

"feed authority" ("*awdurdod bwyd*") means an authority identified in section 67(1A) of the Act as having the duty to enforce Part IV of that Act within its area;

"point 4 compliant laboratory" ("*labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4*") means a laboratory which complies with the fourth and fifth indents of Annex II to Commission Directive 2002/70/EC establishing requirements for the determination of levels of dioxins and dioxin-like PCBs in feedingstuffs(2);

"premises" ("*mangre*") includes any establishment, any place, vehicle, stall or moveable structure and any ship or aircraft;

(1) 1979 c.40.

(2) OJ No. L209, 6.8.2002, p.15.

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw sefydliad, unrhyw le, cerbyd, stonin neu adeiledd symudol ac unrhyw long neu awyren;

ystyr "modd rhagnodedig" ("*prescribed manner*") yw'r modd a ragnodir gan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1993(1) neu fel arall yn unol ag Erthygl 11(1) o Reoliad 882/2004;

ystyr "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod gofynion ac egwyddorion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a gosod gweithdrefnau ym materion diogelwch bwyd;

ystyr "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflwynir i sicrhau y dilysir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (2);

ystyr "Rheoliad 183/2005" ("*Regulation 183/2005*") yw Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid (3);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw person (p'un a yw'n swyddog o'r awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi'i awdurdodi gan neu ar ran yr awdurdod gorfodi, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 178/2002, Rheoliad 882/2004 neu Reoliad 183/2005 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag yn y Rheoliad hwnnw.

(3) Yn y Rheoliadau hyn nid yw "bwyd anifeiliaid" yn cynnwys unrhyw un o'r ychwanegion bwyd anifeiliaid neu rag-gymysgeddau o'r cyfryw ychwanegion-

- (a) cocsidiostatwyr;
- (b) histomonostatwyr; ac
- (c) pob ychwanegyn soötechnegol arall ac eithrio-
 - (i) hyrwyddwyr treulio,
 - (ii) sefydlogyddion fflora'r perfedd, a
 - (iii) sylweddau sydd wedi'u hymgorffori gyda'r bwriad o gael effaith ffafriol ar yr amgylchedd.

"prescribed manner" ("*modd rhagnodedig*") means the manner prescribed by the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999(1) or otherwise in accordance with Article 11(1) of Regulation 882/2004;

"Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*") means Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general requirements and principles of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety;

"Regulation 882/2004" ("*Rheoliad 882/2004*") means Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules(2);

"Regulation 183/2005" ("*Rheoliad 183/2005*") means Regulation (EC) No. 183/2005 of the European Parliament and of the Council laying down requirements for feed hygiene(3);

"sampled portion" ("*cyfran a samplwyd*") has the meaning given in Part I of Schedule 1 to the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999;

"specified feed law" ("*cyfraith benodedig yn ynwneud â bwyd*") means the Act and the Regulations listed in Schedule 1;

(2) Subject to paragraph (3), other expressions used in these Regulations and in Regulation 178/2002, Regulation 882/2004 or Regulation 183/2005 have the same meaning in these Regulations as in that Regulation.

(3) In these Regulations "feed" or "feeding stuff" does not include any of the following feed additives or premixtures of such additives-

- (a) coccidiostats;
- (b) histomonostats; and
- (c) all other zootechnical additives except-
 - (i) digestibility enhancers,
 - (ii) gut flora stabilisers, and
 - (iii) substances incorporated with the intention of favourably affecting the environment.

(1) O.S. 1999/1663 fel y'i diwygiwyd mewn perthynas â Chymru gan O.S. 1999/1871, O.S. 2001/2253 (Cy.163), O.S. 2002/1797 (Cy.172), O.S. 2003/1677 (Cy.180), O.S. 2003/1850 (Cy.200), O.S. 2003/3119 (Cy.297), O.S. 2004/1749 (Cy.186) ac O.S. 2004/3091 (Cy.265).

(2) OJ Rhif L191, 28.5.2004, p.1.

(3) OJ Rhif L35, 8.2.2005, p.1.

(1) S.I. 1999/1663 as amended in relation to Wales by S.I. 1999/1871, S.I. 2001/2253 (W.163), S.I. 2002/1797 (W.172), S.I. 2003/1677 (W.180), S.I. 2003/1850 (W.200), S.I. 2003/3119 (W.297), S.I. 2004/1749 (W.186) and S.I. 2004/3091 (W.265).

(2) OJ No. L191, 28.5.2004, p.1.

(3) OJ No. L35, 8.2.2005, p.1.

(4) Ar wahân i'r paragraff hwn, pan fo unrhyw gyfnod o lai na saith diwrnod a nodir yn y Rheoliadau hyn yn cynnwys unrhyw ddiwrnod-

- (a) sy'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig neu'n ddydd Gwener y Grogllith; neu
- (b) sy'n wyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1),

bydd y cyfryw ddiwrnod yn cael ei eithrio o'r cyfnod.

RHAN 2

Gorfodi Rheoliad 183/2005

Cwmpas a dehongli Rhan 2

3.-(1) Nid yw'r Rhan hon yn gymwys i'r gweithgareddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 2(2) Rheoliad 183/2005.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at Erthygl wedi'i rhifo yn gyfeiriad at yr Erthygl wedi'i rhifo felly yn Rheoliad 183/2005.

Awdurdodau cymwys

4. Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 183/2005 yw-

- (a) o ran Erthyglau 9(1) a (3), 18(3), 20(2), 21(1) a 22(2)(b), yr Asiantaeth a'r awdurdod gorfodi;
- (b) o ran Erthyglau 7, 9(2), 10, 13, 14, 15, 16, 17, 18(1), (2) a (4) a 19(2), yr awdurdod gorfodi;
- (c) o ran Erthygl 19(1), yr Asiantaeth.

Tramgwyddau a chosbau

5.-(1) Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig Rheoliad 183/2005 a nodir ym mharagraff (2) neu sy'n methu â chydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd ac yn agored i-

- (a) yn achos is-baragraffau (ch), (d), (e), (f), (ff) a (g) o baragraff (2)-
 - (i) ar gollfarn ddiannod i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu'r dda; neu
 - (ii) ar gollfarn ar dditiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu'r dda;
- (b) yn achos is-baragraffau (a), (b), (c), ac (dd) o baragraff (2), ar gollfarn ddiannod i garchariad nad yw'n fwy na thri mis neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu'r dda.

(4) Where, apart from this paragraph, any period of less than seven days which is specified in these Regulations would include any day which is-

- (a) a Saturday, a Sunday, Christmas Day or Good Friday; or
- (b) a day which is a bank holiday under the Banking and Financial Dealings Act 1971(1),

such day will be excluded from the period.

PART 2

Enforcement of Regulation 183/2005

Scope and interpretation of Part 2

3.-(1) This Part does not apply to the activities mentioned in Article 2(2) of Regulation 183/2005.

(2) Any reference in this Part to a numbered Article is a reference to the Article so numbered in Regulation 183/2005.

Competent authorities

4. The competent authorities for the purposes of Regulation 183/2005 are-

- (a) in respect of Articles 9(1) and (3), 18(3), 20(2), 21(1) and 22(2)(b), the Agency and the enforcement authority;
- (b) in respect of Articles 7, 9(2), 10, 13, 14, 15, 16, 17, 18(1), (2) and (4) and 19(2), the enforcement authority;
- (c) in respect of Article 19(1), the Agency.

Offences and penalties

5.-(1) Any person who contravenes or fails to comply with any of the specified provisions of Regulation 183/2005 set out in paragraph (2) is guilty of an offence and liable-

- (a) in the case of sub-paragraphs (d), (e), (g), (h), (i) and (j) of paragraph (2)-
 - (i) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or to a fine not exceeding the statutory maximum, or both; or
 - (ii) on conviction on indictment to a term of imprisonment not exceeding two years or to a fine, or both;
- (b) in the case of sub-paragraphs (a), (b), (c), and (f) of paragraph (2), on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or to a fine not exceeding level 5 on the standard scale, or both.

(2) Y darpariaethau penodedig y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw-

- (a) Erthygl 5(1), (2), (3), (5) a (6) (rhwymedigaethau penodol);
- (b) Erthygl 6(1), fel y'i darllenir gyda (2) a (3) (system HACCP);
- (c) Erthygl 7(1) (dogfennau yn ymwneud â system HACCP);
- (ch) Erthygl 9(2) (rheolaethau swyddogol, hysbysu a chofrestru);
- (d) Erthygl 11 (gwaharddiad ar weithredu heb gymeradwyaeth neu gofrestriad);
- (dd) Erthygl 17(2) (esemptiad rhag ymweliadau â'r safle);
- (e) Erthygl 18(3) (datgan cydymffurfiaeth);
- (f) Erthygl 23(1) (amodau yn ymwneud â mewnfornion);
- (ff) Erthygl 24 (mesurau interim ynglŷn â sefydliadau mewn trydydd gwledydd);
- (g) Erthygl 25 (bwyd anifeiliaid a gynhyrchir i'w allforio i drydydd gwledydd).

Ffurf yr hysbysiad gyda'r bwriad o gofrestru

6. Mae'n rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo o dan Erthygl 9 (rheolaethau swyddogol, hysbysu a chofrestru) hysbysu'r awdurdod gorfodi o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) neu (b) o'r Erthygl honno sicrhau bod unrhyw gyfryw hysbysiad-

- (a) yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan y person hwnnw neu ar ei ran;
- (b) yn cynnwys enw'r person hwnnw ac, os yw'n wahanol, ei enw busnes;
- (c) yn cynnwys ei gyfeiriad ac, os yw'n wahanol, cyfeiriad unrhyw sefydliad y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef;
- (ch) yn nodi gweithgareddau'r busnes bwyd anifeiliaid yn y cyfryw fodd ag sy'n ofynnol gan yr awdurdod gorfodi; a
- (d) wedi'i gyfeirio'n gywir i'r awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae'r sefydliad y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef wedi'i leoli ynddi.

Ffurf y datganiad mewn perthynas â mesurau trosiannol

7. Mae'n rhaid i unrhyw berson y mae Erthygl 18(3) (mesurau trosiannol) yn gymwys iddynt sicrhau bod datganiad, wedi'i gyflwyno yn unol â'r ddarpariaeth honno-

- (a) yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan y person hwnnw neu ar ei ran;
- (b) yn cynnwys rhif cofrestru neu gymeradwyaeth y person hwnnw, ei enw ac, os yw'n wahanol, ei enw busnes;

(2) The specified provisions referred to in paragraph (1) are-

- (a) Article 5(1), (2), (3), (5) and (6) (specific obligations);
- (b) Article 6(1), as read with (2) and (3) (HACCP system);
- (c) Article 7(1) (documents concerning the HACCP system);
- (d) Article 9(2) (official controls, notification and registration);
- (e) Article 11 (prohibition on operating without approval or registration);
- (f) Article 17(2) (exemption from on-site visits);
- (g) Article 18(3) (declaration of compliance);
- (h) Article 23(1) (conditions relating to imports);
- (i) Article 24 (interim measures regarding third country establishments);
- (j) Article 25 (feed produced for export to third countries).

Form of notification with a view to registration

6. Any person who is required under Article 9 (official controls, notification and registration) to notify the enforcement authority of the information mentioned in paragraph (2)(a) or (b) of that Article must ensure that any such notification-

- (a) is in writing and signed by that person or on his or her behalf;
- (b) contains that person's name and, if different, his or her business name;
- (c) contains his or her address and, if different, the address of any establishment to which the notification relates;
- (d) identifies the feed business activities in such form as may be required by the enforcement authority; and
- (e) is properly addressed to the enforcement authority for the area in which the establishment to which the notification relates is situated.

Form of declaration in relation to transitional measures

7. Any person to whom Article 18(3) (transitional measures) applies must ensure that a declaration submitted in accordance with that provision-

- (a) is in writing and signed by that person or on his or her behalf;
- (b) contains that person's registration or approval number, his or her name and, if different, his or her business name;

- (c) yn cynnwys cyfeiriad y person hwnnw, ac os yw'n wahanol, cyfeiriad unrhyw sefydliad y mae a wnelo'r datganiad ag ef;
- (ch) yn cynnwys datganiad i'r perwyl y mae'r busnes bwyd anifeiliaid yn un y mae Erthygl 18(2) yn gymwys iddo; a
- (d) wedi'i gyfeirio'n gywir i'r awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae'r sefydliad y mae a wnelo'r datganiad ag ef wedi'i leoli ynddi.

- (c) contains that person's address, and if different, the address of any establishment to which the declaration relates;
- (d) contains a statement to the effect that the feed business is one to which Article 18(2) applies; and
- (e) is properly addressed to the enforcement authority for the area in which the establishment to which the declaration relates is situated.

Ffur y cais sydd i'w gymeradwyo

8. Pan fo'n ofynnol i sefydliad busnes bwyd anifeiliaid gael ei gymeradwyo yn unol ag Erthygl 10, mae'n rhaid i gais gael ei wneud i'r awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal lle y mae'r sefydliad wedi'i leoli sydd-

- (a) yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan neu ar ran yr ymgeisydd;
- (b) yn cynnwys enw neu enw busnes a chyfeiriad yr ymgeisydd ac, os yw'n wahanol, cyfeiriad y sefydliad;
- (c) yn nodi pa rai o weithgareddau'r busnes bwyd anifeiliaid a nodir yn Erthygl 10(1) neu y gellir eu pennu yn unol ag Erthygl 10(3) y mae'r ymgeisydd yn eu hymarfer neu'n bwriadu eu hymarfer ac y mae'n ceisio cymeradwyaeth amdanynt;
- (ch) yn achos unrhyw berson y mae Erthygl 17(2) (esemptiad rhag ymweliadau â'r safle) yn gymwys iddo, yn cynnwys datganiad i'r perwyl bod y sefydliad yn un y mae Erthygl 17(1) yn gymwys iddo a datganiad o gydymffurfiaeth fel sy'n ofynnol gan baragraff (2) o'r Erthygl honno; a
- (d) wedi'i gyfeirio'n gywir i'r awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae'r sefydliad y mae a wnelo'r datganiad ag ef wedi'i leoli ynddi.

Form of application for approval

8. Where approval of a feed business establishment is required pursuant to Article 10, an application to the enforcement authority for the area in which the establishment is located must be made which-

- (a) is in writing and signed by or on behalf of the applicant;
- (b) contains the name or business name and the address of the applicant and, if different, the address of the establishment;
- (c) identifies which of the feed business activities specified in Article 10(1) or as may be specified pursuant to Article 10(3) the applicant is exercising or intends to exercise and for which approval is sought;
- (d) in the case of any person to whom Article 17(2) (exemption from on-site visits) applies, includes a statement to the effect that the establishment is one to which Article 17(1) applies and a declaration of compliance as required by paragraph (2) of that Article; and
- (e) is properly addressed to the enforcement authority for the area in which the establishment to which the declaration relates is situated.

Gweithdrefn ar gyfer atal dros dro gofrestriad neu gymeradwyaeth

9.-(1) Pan fo awdurdod gorfodi yn bwriadu cymryd camau yn unol ag Erthygl 14 (atal dros dro gofrestriad neu gymeradwyaeth) mae'n rhaid iddo gyflwyno i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid hysbysiad yn unol â pharagraff (2).

(2) Mae'n rhaid i'r hysbysiad a gyflwynir gan yr awdurdod gorfodi o dan baragraff (1)-

- (a) nodi dyddiad gweithredol yr hysbysiad ("y dyddiad gweithredol");
- (b) nodi ei fod yn bwriadu atal dros dro ar y dyddiad gweithredol gymeradwyaeth neu fel y digwydd gofrestriad yn unol ag Erthygl 14 a'r Rheoliadau hyn;

Procedure for suspension of registration or approval

9.-(1) Where an enforcement authority proposes to take action pursuant to Article 14 (temporary suspension of registration or approval) it must serve on the feed business operator a notice in accordance with paragraph (2).

(2) The notice served by the enforcement authority under paragraph (1) must-

- (a) specify the operative date of the notice, ("the operative date");
- (b) state that it intends to suspend on the operative date approval or as the case may be registration pursuant to Article 14 and these Regulations;

- (c) nodi gweithgaredd neu weithgareddau'r busnes bwyd anifeiliaid y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef;
- (ch) nodi'r camau adfer sydd eu hangen;
- (d) datgan y diddymir y cofrestriad neu'r gymeradwyaeth heb hysbysiad pellach ar ben-blwydd cyntaf y dyddiad gweithredol oni chymerir y camau adfer er boddhad yr awdurdod gorfodi ymhen blwyddyn i'r dyddiad gweithredol;
- (dd) yn achos atal cofrestriad dros dro, darparu gwybodaeth ar y terfynau amser ar gyfer apelio o dan reoliad 13.

Gweithdrefn ar gyfer codi ataliad dros dro

10. Pan fo'r awdurdod gorfodi a gyflwynodd yr hysbysiad i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid o dan reoliad 9 yn fodlon-

- (a) bod y camau adfer sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(d) o'r rheoliad hwnnw wedi cael eu cymryd; a
- (b) nad yw'r cyfnod ar gyfer gweithredu, a bennir yn y paragraff hwnnw wedi dod i ben,

mae'n rhaid iddo godi'r ataliad dros dro ar unwaith a hysbysu gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw.

Gweithdrefn ar gyfer dirymu cofrestriad neu gymeradwyaeth

11.-(1) Pan fo awdurdod gorfodi yn bwriadu cymryd camau o dan yr amgylchiadau a nodir yn Erthygl 15 (dirymu cofrestriad neu gymeradwyaeth) mae'n rhaid iddo gyflwyno i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid hysbysiad yn unol â pharagraff (2).

(2) Mae'n rhaid i'r hysbysiad a gyflwynir gan yr awdurdod gorfodi o dan baragraff (1)-

- (a) pennu dyddiad gweithredol yr hysbysiad;
- (b) datgan bod y cofrestriad neu'r gymeradwyaeth yn ôl y digwydd wedi'i ddiddymu neu ei diddymu;
- (c) pennu gweithgaredd neu weithgareddau'r busnes bwyd anifeiliaid y mae a wnelo'r dirymiad ag ef;
- (ch) nodi pa rai o'r amodau dirymu a nodir yn Erthygl 15 sy'n gymwys;
- (d) darparu gwybodaeth am y terfynau amser ar gyfer apelio o dan reoliad 13.

(3) Pan fo awdurdod gorfodi wedi dirymu cofrestriad neu gymeradwyaeth yn unol â'r rheoliad hwn, mae'n rhaid iddo-

- (a) gwneud y diwygiadau priodol i'w gofrestr ei hun o sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid; a
- (b) cyfleu i'r Asiantaeth yn brydlon y wybodaeth

- (c) specify the feed business activity or activities to which the notice relates;
- (d) identify the remedial action required;
- (e) state that unless remedial action has been carried out to the satisfaction of the enforcement authority within 1 year of the operative date, the registration or approval will be revoked without further notice on the first anniversary of the operative date;
- (f) in the case of suspension of registration, provide information on the time limits for appealing under regulation 13.

Procedure for lifting of suspension

10. Where the enforcement authority which has served notice on a feed business operator under regulation 9 is satisfied that-

- (a) the remedial action required under paragraph (2)(e) of that regulation has been carried out; and
- (b) the period for action specified in that paragraph has not expired,

it must immediately lift the suspension and notify the feed business operator in writing to that effect.

Procedure for the revocation of registration or approval

11.-(1) Where an enforcement authority proposes to take action in the circumstances set out in Article 15 (revocation of registration or approval) it must serve on the feed business operator a notice in accordance with paragraph (2).

(2) The notice served by the enforcement authority under paragraph (1) must-

- (a) specify the operative date of the notice;
- (b) state that registration or approval as the case may be has been revoked;
- (c) specify the feed business activity or activities to which the revocation relates;
- (d) identify which of the conditions of revocation set out in Article 15 is applicable;
- (e) provide information on the time limits for appealing under regulation 13.

(3) Where an enforcement authority has revoked a registration or approval pursuant to this regulation it must-

- (a) make the appropriate amendments to its own register of feed business establishments; and
- (b) promptly transmit to the Agency the necessary

angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag Erthygl 19(3) (diweddarau rhestrau cenedlaethol).

information to ensure compliance with Article 19(3) (updating of national lists).

Ffurf y cais ar gyfer diwygio cymeradwyaeth neu gofrestriad

12.-(1) Pan fo gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn dymuno gwneud cais am ddiwygiadau i gymeradwyaeth neu gofrestriad yn unol ag Erthygl 16 (diwygiadau i gofrestru neu gymeradwyo sefydliad), mae'n rhaid i gais i'r awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae sefydliad y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol wedi'i leoli ynddi-

- (a) sydd wedi'i lofnodi gan neu ar ran yr ymgeisydd;
- (b) sy'n cynnwys enw neu enw busnes a chyfeiriad yr ymgeisydd ac, os yw'n wahanol, cyfeiriad y sefydliad;
- (c) sy'n nodi'r gweithgareddau y mae a wnelo'r cais am ddiwygiadau i'r gymeradwyaeth neu'r cofrestriad ag ef;
- (ch) sydd wedi'i gyfeirio'n briodol i'r awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae'r sefydliad y mae a wnelo'r datganiad ag ef wedi'i leoli ynddi.

Hawl i apelio yn erbyn ataliad cofrestru dros dro neu ei ddirymu

13.-(1) Caiff unrhyw berson sy'n teimlo iddo gael cam oherwydd penderfyniad yr awdurdod gorfodi a wnaed mewn perthynas â'r canlynol-

- (a) cymeradwyo sefydliad o dan Erthygl 13;
- (b) atal cofrestriad neu gymeradwyaeth sefydliad dros dro o dan Erthygl 14;
- (c) dirymu cofrestriad neu gymeradwyaeth sefydliad o dan Erthygl 15; neu
- (ch) diwygiad i gymeradwyaeth sefydliad o dan Erthygl 16

apelio i lys ynadon.

(2) Y weithdrefn ar apêl i lys ynadon o dan baragraff (1) yw drwy wneud cwyn am orchymyn a bydd Deddf Llysoedd yr Ynadon 1980(1) yn gymwys i'r gweithrediadau.

(3) Y cyfnod y gellir dwyn apêl o dan baragraff (1) yw un mis i'r dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad o'r penderfyniad i'r person sy'n dymuno apelio a bernir mai drwy wneud cwyn am orchymyn at ddiibenion y paragraff hwn y dygir apêl.

Form of application for amendments to approval or registration

12.-(1) Where a feed business operator wishes to apply for amendments to approval or registration pursuant to Article 16 (amendments to registration or approval of an establishment), an application to the enforcement authority for the area in which the relevant feed business establishment is located must be made which-

- (a) is signed by or on behalf of the applicant;
- (b) contains the name or business name and address of the applicant and, if different, the address of the establishment;
- (c) identifies the activities to which the application for amendments to approval or registration relates;
- (d) is properly addressed to the enforcement authority for the area in which the establishment to which the declaration relates is situated.

Right of appeal against suspension or revocation of registration

13.-(1) Any person who is aggrieved by the decision of an enforcement authority taken in respect of-

- (a) the approval of an establishment under Article 13;
- (b) suspension of the registration or approval of an establishment under Article 14;
- (c) revocation of the registration or approval of an establishment under Article 15; or
- (d) amendment of the approval of an establishment under Article 16

may appeal to a magistrates' court.

(2) The procedure on appeal to a magistrates' court under paragraph (1) is by way of complaint for an order, and the Magistrates' Courts Act 1980(1) will apply to the proceedings.

(3) The period within which an appeal under paragraph (1) may be brought is one month from the date on which notice of the decision was served on the person desiring to appeal and the making of a complaint for an order is deemed for the purposes of this paragraph to be the bringing of the appeal.

(1) 1980 p. 43.

(1) 1980 c. 43.

(4) Pan fo llys ynadon yn penderfynu, ar apêl o dan baragraff (1), bod penderfyniad yr awdurdod gorfodi yn anghywir, mae'n rhaid i'r awdurdod weithredu ar benderfyniad y llys.

(5) Pan fo cofrestrriad yn cael ei atal dros dro neu ei ddirymu, caiff gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid a oedd wedi bod yn defnyddio'r sefydliad dan sylw, yn union cyn y cyfryw atal dros dro neu ddirymiad, barhau i'w ddefnyddio, yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodwyd gan yr awdurdod gorfodi er diogelwch iechyd y cyhoedd oni bai-

- (a) bod y terfyn amser ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniad i atal cofrestrriad dros dro neu ei ddirymu wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno; neu
- (b) pan fo apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw wedi'i chyflwyno, bod yr apêl wedi'i phenderfynu'n derfynol neu wedi'i therfynu.

(6) Nid oes dim ym mharagraff (5) yn caniatáu i sefydliad gael ei ddefnyddio ar gyfer busnes bwyd anifeiliaid os gosodwyd gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid, hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid neu orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid mewn perthynas â'r sefydliad.

Ffioedd ar gyfer cymeradwyaethau neu ddiwygio cymeradwyaethau

14.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'n rhaid i weithredwr busnes bwyd anifeiliaid sy'n gwneud cais i awdurdod gorfodi o dan reoliad 8 am gymeradwyaeth neu o dan reoliad 12 am ddiwygiad i gymeradwyaeth-

- (a) talu'r ffi berthnasol i'r awdurdod gorfodi pan gyflwynir y cais y cyfeirir ato ym mharagraff (1); a
- (b) os gofynnir iddo, ad-dalu costau unrhyw waith dadansoddi gan labordy y mae'r awdurdod gorfodi yn mynd iddynt mewn cysylltiad â'r cais.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw gais a gyflwynir iddo o dan reoliadau 8 neu 12, nid oes angen i'r awdurdod gorfodi-

- (a) cymryd unrhyw gamau i gymeradwyo sefydliad mewn perthynas ag un neu fwy o'i weithgareddau busnes bwyd anifeiliaid hyd nes bod y ffi berthnasol wedi'i thalu iddo; neu
- (b) cymeradwyo sefydliad mewn perthynas ag un neu fwy o'i weithgareddau busnes bwyd anifeiliaid hyd nes ei fod wedi ad-dalu costau unrhyw waith dadansoddi gan labordy yr aeth iddynt mewn cysylltiad â'r cais yn unol â pharagraff (1)(b).

(3) Pan fo gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn gwneud cais o dan reoliad 8 neu 12 yn ceisio cymeradwyaeth neu fel y digwydd ddiwygiad i

(4) Where on an appeal under paragraph (1) a magistrates' court determines that the decision of the enforcement authority is incorrect, the authority must give effect to the determination of the court.

(5) Where a registration is suspended or revoked, the feed business operator who, immediately before such suspension or revocation, had been using the establishment concerned may continue to use it, subject to any conditions imposed by the enforcement authority for the protection of public health, unless-

- (a) the time limit for appealing against the decision to suspend or revoke registration has expired without an appeal having been lodged; or
- (b) where an appeal against that decision has been lodged, the appeal has been finally disposed of or abandoned.

(6) Nothing in paragraph (5) permits an establishment to be used for a feed business if a feed business prohibition order, a feed business emergency prohibition notice or a feed business emergency prohibition order has been imposed in relation to the establishment.

Fees for approvals or amendments to approvals

14.-(1) Subject to paragraph (3), a feed business operator who applies to an enforcement authority under regulation 8 for approval or under regulation 12 for amendment to an approval must-

- (a) pay the relevant fee to the enforcement authority when the application referred to in paragraph (1) is submitted; and
- (b) reimburse the enforcement authority on demand the cost of any laboratory analysis incurred by it in connection with the application.

(2) In relation to any application submitted to it under regulations 8 or 12, the enforcement authority need not-

- (a) take any steps to approve an establishment in respect of one or more of its feed business activities until the relevant fee has been paid to it; or
- (b) approve an establishment in respect of one or more of its feed business activities until, in accordance with paragraph (1)(b), it has been reimbursed the cost of any laboratory analysis incurred by it in connection with the application.

(3) Where a feed business operator makes an application under regulation 8 or 12 seeking approval or as the case may be the amendment of approval of an

gymeradwyaeth sefydliad fel un lle y gellir ymarfer mwy nag un gweithgaredd busnes bwyd anifeiliaid sy'n gofyn am gymeradwyaeth, mae'r gweithredwr yn atebol i dalu un ffi berthnasol, sef y ffi uchaf a fydd yn daladwy fel arall.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "ffi berthnasol" yw'r ffi a bennwyd yn Atodlen 3.

RHAN 3

Gorfodi Rheoliad 178/2002

Tramgwyddau, cosbau a gorfodi

15.-(1) Mae unrhyw berson sy'n torri darpariaethau penodedig Rheoliad 178/2002 a nodir ym mharagraff (2) neu sy'n methu â chydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd ac yn agored i

- (a) yn achos paragraff (2)(a) a (b)
 - (i) ar gollfarn ddiannod i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu'r ddaau; neu
 - (ii) ar gollfarn ar dditiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu'r ddaau;
- (b) yn achos is-baragraffau 2(c), (ch), a (d), ar gollfarn ddiannod i garchariad nad yw'n fwy na thri mis neu ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu'r ddaau.

(2) Y darpariaethau penodedig y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw-

- (a) Erthygl 12 i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid (allforio neu ail-allforio i drydydd gwledydd);
- (b) Erthygl 15, paragraff 1 (gwaharddiad ar osod bwyd anifeiliaid anniogel ar y farchnad neu ei fwydo i unrhyw anifail sy'n cynhyrchu bwyd);
- (c) Erthygl 16 i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid (gwaharddiad ar gamarwain drwy labelu, hysbysebu neu gyflwyno);
- (ch) Erthygl 18, paragraffau 2 a 3 (gofynion olrhain) i'r graddau y mae'n ymwneud â gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid;
- (d) Erthygl 20 (cyfrifoldebau gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid).

(3) Yr awdurdod cymwys at ddibenion Erthyglau 15 ac 18 yw'r awdurdod gorfodi ac at ddibenion Erthygl 20 yr awdurdod gorfodi neu'r Asiantaeth.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "bwyd anifeiliaid" yw bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.

establishment as one on which more than one feed business activity requiring approval may be exercised, the operator is liable to pay a single relevant fee, which fee will be the highest one otherwise payable.

(4) In this regulation "relevant fee" means the fee specified in Schedule 3.

PART 3

Enforcement of Regulation 178/2002

Offences, penalties and enforcement

15.-(1) Any person who contravenes or fails to comply with any of the specified provisions of Regulation 178/2002 set out in paragraph (2) is guilty of an offence and liable-

- (a) in the case of paragraph (2)(a) and (b)
 - (i) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or to a fine not exceeding the statutory maximum, or both; or
 - (ii) on conviction on indictment to a term of imprisonment not exceeding two years or to a fine, or both;
- (b) in the case of paragraph (2)(c), (d) and (e) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or to a fine not exceeding level 5 on the standard scale, or both.

(2) The specified provisions referred to in paragraph (1) are-

- (a) Article 12 in so far as it relates to feed (export or re-export to third countries);
- (b) Article 15, paragraph 1 (prohibition on the placing on the market or feeding to any food-producing animal of unsafe feed);
- (c) Article 16 in so far as it relates to feed (prohibition on misleading labelling, advertising or presentation);
- (d) Article 18, paragraphs 2 and 3 (requirements of traceability) in so far as it relates to feed business operators;
- (e) Article 20 (responsibilities of feed business operators).

(3) The competent authority for the purposes of Articles 15 and 18 is the enforcement authority and for the purposes of Article 20 is the enforcement authority or the Agency.

(4) In this regulation "feed" means feed for food-producing animals.

Gorfodi

16. Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod bwyd anifeiliaid o fewn ei ardal i weithredu a gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn a Rheoliad 178/2002 a Rheoliad 183/2005.

Hysbysiadau gwella busnes bwyd anifeiliaid

17.-1) Os oes gan swyddog awdurdodedig sail resymol dros gredu bod gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn methu â chydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid benodedig, caiff y swyddog hwnnw drwy gyflwyno hysbysiad (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid") i'r person hwnnw-

- (a) datgan rhesymau'r swyddog dros gredu bod gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn methu â chydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid benodedig;
- (b) pennu'r materion sy'n golygu bod gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn methu â chydymffurfio;
- (c) pennu'r mesurau y mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid eu cymryd, ym marn y swyddog, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth; ac
- (ch) ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid gymryd y camau hynny, neu gamau sydd o leiaf yn cyfateb â hwy, o fewn y cyfryw gyfnod (nad yw'n llai na 14 diwrnod) ag a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid yn euog o dramgwydd.

(3) Mae'n rhaid i hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid nodi'r hawl i apelio o dan reoliad 18 a'r terfyn amser priodol ar gyfer dwyn unrhyw apêl o'r fath.

Hawl i apelio yn erbyn hysbysiadau gwella busnes bwyd anifeiliaid

18.-(1) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir oherwydd penderfyniad swyddog awdurdodedig i gyflwyno hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid apelio i lys ynadon.

(2) Y weithdrefn ar apêl i lys ynadon o dan baragraff (1) yw drwy wneud cwŷn am orchymyn, a bydd Deddf Llysoedd yr Ynadon(1) yn gymwys i'r gweithrediadau.

Enforcement

16. It is the duty of each feed authority within its area to execute and enforce the provisions of these Regulations and of Regulation 178/2002 and Regulation 183/2005.

Feed business improvement notices

17.-(1) If an authorised officer has reasonable grounds for believing that a feed business operator is failing to comply with specified feed law, that officer may by a notice served on that person (in these Regulations referred to as a "feed business improvement notice")-

- (a) state the officer's grounds for believing that the feed business operator is failing to comply with specified feed law;
- (b) specify the matters which constitute the feed business operator's failure to comply;
- (c) specify the measures which, in the officer's opinion, the feed business operator must take in order to secure compliance; and
- (d) require the feed business operator to take those measures, or measures which are at least equivalent to them, within such period (not being less than 14 days) as may be specified in the notice.

(2) Any person who fails to comply with a feed business improvement notice is guilty of an offence.

(3) A feed business improvement notice must state the right to appeal under regulation 18 and the appropriate time limit for bringing any such appeal.

Right of appeal against feed business improvement notices

18.-(1) Any person who is aggrieved by a decision of an authorised officer to serve a feed business improvement notice may appeal to a magistrates' court.

(2) The procedure on an appeal to a magistrates' court under paragraph (1) is by way of complaint for an order, and the Magistrates' Courts Act 1980(1) will apply to the proceedings.

(1) 1980 p.43.

(1) 1980 c.43.

(3) Y cyfnod y gellir dwyn apêl o dan baragraff (1) o fewn iddo yw-

- (a) mis i'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad i'r person sy'n dymuno apelio; neu
- (b) os yw'n fyrrach, y cyfnod a bennwyd yn yr hysbysiad yn unol â rheoliad 17(1)(ch), bod gwneud

a bernir yn gyfystyr â dwyn apêl cwyn am orchymyn at ddibenion y paragraff hwn.

Apelau i Lys y Goron

19. Caiff person a dramgwyddir oherwydd-

- (a) penderfyniad llys ynadon i wrthod yr apêl iddo o dan reoliad 13(1) neu 18(1); neu
- (b) unrhyw benderfyniad gan lys o'r fath i wneud gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid neu orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid,

apelio i Lys y Goron.

Camau sy'n deillio o apelau

20.-(1) Ar apêl yn erbyn hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid caiff y llys ddileu neu gadarnhau'r hysbysiad ac, os bydd yn ei gadarnhau, caiff wneud hynny naill ai ar ei ffurf wreiddiol neu gyda'r cyfryw addasiadau ag y gwêl y llys yn dda o dan yr amgylchiadau.

(2) Pan fo unrhyw gyfnod a bennwyd mewn hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid yn unol â rheoliad 17(1)(ch) fel arall yn cynnwys unrhyw ddiwrnod y mae apêl yn erbyn yr hysbysiad hwnnw yn yr arfaeth, bydd y diwrnod hwnnw yn cael ei eithrio o'r cyfnod hwnnw.

(3) Mae'n rhaid ystyried unrhyw apêl yn un yn yr arfaeth at ddibenion paragraff (2) hyd nes y penderfynir arno yn derfynol, y'i tynnir yn ôl neu y'i dilëir oherwydd diffyg erlyniad.

Gorchymynion gwahardd busnes bwyd anifeiliaid

21.-(1) Os-

- (a) collfemir gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid o dramgwydd o dan gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig; a
- (b) bydd y llys sy'n collfarnu'r gweithredwr neu y collfemir y gweithredwr felly ger ei fron yn fodlon bod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas â'r busnes bwyd anifeiliaid dan sylw,

mae'n rhaid i'r llys drwy orchymyn osod y gwaharddiad priodol.

(3) The period within which an appeal under paragraph (1) may be brought is-

- (a) one month from the date on which notice of the decision was served on the person desiring to appeal; or
- (b) if it is shorter, the period specified in the notice pursuant to regulation 17(1)(d),

and the making of a complaint for an order is deemed for the purposes of this paragraph to be the bringing of the appeal.

Appeals to Crown Court

19. A person who is aggrieved by-

- (a) the decision of a magistrates' court to dismiss an appeal to it under regulation 13(1) or 18(1); or
- (b) any decision of such a court to make a feed business prohibition order or a feed business emergency prohibition order,

may appeal to the Crown Court.

Actions resulting from appeals

20.-(1) On an appeal against a feed business improvement notice the court may cancel or affirm the notice and, if it affirms it, may do so either in its original form or with such modifications as the court may in the circumstances think fit.

(2) Where any period specified in a feed business improvement notice pursuant to regulation 17(1)(d) would otherwise include any day on which an appeal against that notice is pending, that day will be excluded from that period.

(3) Any appeal must be regarded as pending for the purposes of paragraph (2) until it is finally disposed of, is withdrawn or is struck out for want of prosecution.

Feed business prohibition orders

21.-(1) If-

- (a) a feed business operator is convicted of an offence under specified feed law; and
- (b) the court by or before which the operator is so convicted is satisfied that the health risk condition is fulfilled with respect to the feed business concerned,

the court must by an order impose the appropriate prohibition.

(2) Bodlonir yr amod ynglŷn â risg i iechyd mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid os bydd unrhyw un o'r canlynol yn cynnwys risg o niwed i iechyd (gan gynnwys amhariad, boed yn barhaol neu dros dro), sef-

- (a) y defnydd o unrhyw broses neu driniaeth at ddibenion y busnes;
- (b) adeiladu unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes, neu'r defnydd o unrhyw offer at y dibenion hynny; ac
- (c) cyflwr unrhyw fangre neu offer a ddefnyddir at ddibenion y busnes;

ac at ddibenion y paragraff hwn, ystyr "iechyd" yw iechyd anifeiliaid neu, drwy fwyta cynhyrchion anifail o'r fath, iechyd dynol.

(3) Y gwaharddiad priodol yw-

- (a) mewn achos o dan is-baragraff (a) o baragraff (2), gwaharddiad ar y defnydd o'r broses neu'r driniaeth at ddibenion y busnes;
- (b) mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (b) o'r paragraff hwnnw, gwaharddiad ar y defnydd o'r fangre neu'r offer at ddibenion y busnes neu unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid o'r un dosbarth neu ddisgrifiad; ac
- (c) mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw, gwaharddiad ar y defnydd o'r fangre neu'r offer at ddibenion unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid.

(4) Os-

- (a) collfarnir gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid o dramgwydd o dan gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig; a
- (b) cred y llys sy'n collfarnu'r gweithredwr neu y collfarnir y gweithredwr felly ger ei bron ei bod yn briodol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos,

caiff y llys, drwy orchymyn, osod gwaharddiad ar weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid rhag cymryd rhan mewn rheoli unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid, neu unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid o ddosbarth neu ddisgrifiad a bennir yn y gorchymyn.

(5) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn o dan baragraff (1) neu (4) (y cyfeirir ato fel "gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid" yn y Rheoliadau hyn), mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi-

- (a) cyflwyno copi o'r gorchymyn i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol; a
- (b) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (1), gosod copi o'r gorchymyn mewn man amlwg ar y cyfryw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd anifeiliaid ag a gredant sy'n briodol,

(2) The health risk condition is fulfilled with respect to any feed business if any of the following involves risk of injury to health (including any impairment, whether permanent or temporary), namely-

- (a) the use for the purposes of the business of any process or treatment;
- (b) the construction of any premises used for the purposes of the business, or the use for those purposes of any equipment; and
- (c) the state or condition of any premises or equipment used for the purposes of the business;

and for the purposes of this paragraph "health" means the health of an animal or, through the consumption of the products of such animal, human health.

(3) The appropriate prohibition is-

- (a) in a case falling within sub-paragraph (a) of paragraph (2), a prohibition on the use of the process or treatment for the purposes of the business;
- (b) in a case falling within sub-paragraph (b) of that paragraph, a prohibition on the use of the premises or equipment for the purposes of the business or any other feed business of the same class or description; and
- (c) in a case falling within sub-paragraph (c) of that paragraph, a prohibition on the use of the premises or equipment for the purposes of any feed business.

(4) If-

- (a) a feed business operator is convicted of an offence under specified feed law; and
- (b) the court by or before which the operator is so convicted thinks it proper to do so in all the circumstances of the case,

the court may, by an order, impose a prohibition on the feed business operator participating in the management of any feed business, or any feed business of a class or description specified in the order.

(5) As soon as practicable after the making of an order under paragraph (1) or (4) (in these Regulations referred to as a "feed business prohibition order"), the enforcement authority must-

- (a) serve a copy of the order on the relevant feed business operator; and
- (b) in the case of an order made under paragraph (1), affix a copy of the order in a conspicuous position on such premises used for the purposes of the feed business as they consider appropriate,

ac mae unrhyw berson sy'n torri'r cyfryw orchymyn gan wybod ei fod yn gwneud hynny, yn euog o dramgwydd.

(6) Bydd gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid yn peidio â bod yn effeithiol-

- (a) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (1), ar ôl i awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif i'r perwyl ei fod yn fodlon bod gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wedi cymryd camau digonol i sicrhau nad yw'r amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mwyach mewn perthynas â'r busnes bwyd anifeiliaid; a
- (b) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (4), ar ôl i'r llys roi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw.

(7) Mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif o dan is-baragraff (a) o baragraff (6) o fewn tri diwrnod ar ôl bod yn fodlon fel y cyfeiriwyd ato yn yr is-baragraff hwnnw; ac ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais am y cyfryw dystysgrif, mae'n rhaid i'r awdurdod-

- (a) penderfynu, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 diwrnod, p'un a yw wedi'i fodloni felly ai peidio; a
- (b) os yw'n penderfynu nad yw wedi'i fodloni felly, hysbysu gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(8) Mae'n rhaid i'r llys roi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (b) o baragraff (6) os cred y llys, ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais, ei bod yn briodol gwneud hynny mewn perthynas â holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys yn benodol ymddygiad gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid ers i'r gorchymyn gael ei wneud; ond ni ellir ystyried cais o'r fath os y'i gwneir-

- (a) o fewn chwe mis i wneud y gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid; neu
- (b) o fewn tri mis ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais blaenorol am gyfarwyddyd o'r fath.

(9) Pan fo llys ynadon yn gwneud gorchymyn o dan reoliad 22(2) mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid, bydd paragraff (1) yn gymwys os collfarnwyd gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid gan y llys o dramgwydd o dan gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig.

(10) Pan fo tramgwydd gan weithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn arwain at gollfarnu person arall yn unol â rheoliad 35(1), bydd paragraff (4) yn gymwys mewn perthynas â'r person arall hwnnw fel y mae'n gymwys i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid ac mae'n rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad ym mharagraff (5) neu (8) at weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn unol â hynny.

and any person who knowingly contravenes such an order is guilty of an offence.

(6) A feed business prohibition order will cease to have effect-

- (a) in the case of an order made under paragraph (1), on the issue by the enforcement authority of a certificate to the effect that it is satisfied that the feed business operator has taken sufficient measures to secure that the health risk condition is no longer fulfilled with respect to the feed business; and
- (b) in the case of an order made under paragraph (4), on the giving by the court of a direction to that effect.

(7) The enforcement authority must issue a certificate under sub-paragraph (a) of paragraph (6) within three days of its being satisfied as mentioned in that sub-paragraph; and on an application by the feed business operator for such a certificate, the authority must-

- (a) determine, as soon as is reasonably practicable and in any event within 14 days, whether or not it is so satisfied; and
- (b) if it determines that it is not so satisfied, give notice to the feed business operator of the reasons for that determination.

(8) The court must give a direction under sub-paragraph (b) of paragraph (6) if, on an application by the feed business operator, the court thinks it proper to do so having regard to all the circumstances of the case, including in particular the conduct of the feed business operator since the making of the order; but no such application may be entertained if it is made-

- (a) within six months of the making of the feed business prohibition order; or
- (b) within three months of the making by the feed business operator of a previous application for such a direction.

(9) Where a magistrates' court makes an order under regulation 22(2) with respect to any feed business, paragraph (1) will apply as if the feed business operator had been convicted by the court of an offence under specified feed law.

(10) Where the commission of an offence by a feed business operator leads to the conviction of another person pursuant to regulation 35(1), paragraph (4) will apply in relation to that other person as it applies in relation to the feed business operator and any reference in paragraph (5) or (8) to the feed business operator must be construed accordingly.

Hysbysiadau a gorchmynion gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid

22.-(1) Os yw swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi yn fodlon bod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid caiff y swyddog drwy gyflwyno hysbysiad i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau fel "hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid") osod y gwaharddiad priodol.

(2) Os yw llys ynadon yn fodlon, ar ôl i'r cyfryw swyddog wneud cais, fod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid, mae'n rhaid i'r llys, drwy orchymyn (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "gorchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid") osod y gwaharddiad priodol.

(3) Ni chaiff y cyfryw swyddog o'r fath wneud cais am orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid oni chyflwynodd y swyddog, o leiaf ddiwrnod cyn dyddiad y cais, hysbysiad i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol o'i fwriad i wneud cais am y gorchymyn.

(4) Mae paragraffau (2) a (3) o reoliad 21 yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwn, fel y maent yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwnnw ond fel pe bai'r cyfeiriad ym mharagraff (2) at risg o niwed i iechyd yn gyfeiriad at risg ar fin digwydd i iechyd.

(5) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl cyflwyno hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid, mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi osod copi o'r hysbysiad mewn man amlwg ar y cyfryw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd anifeiliaid ag y cred y swyddog sy'n briodol; a bydd unrhyw berson sy'n torri'r cyfryw hysbysiad gan wybod ei fod yn gwneud hynny yn euog o dramgwydd

(6) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid gael ei wneud, mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi-

- (a) cyflwyno copi o'r gorchymyn i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol; a
- (b) gosod copi o'r gorchymyn mewn man amlwg ar y cyfryw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd anifeiliaid ag y cred y swyddog sy'n briodol,

a bydd unrhyw berson sy'n torri'r cyfryw orchymyn gan wybod ei fod yn gwneud hynny, yn euog o dramgwydd.

(7) Bydd hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid yn peidio â bod yn effeithiol-

- (a) oni wneir cais am orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid o fewn y cyfnod o dri diwrnod yn dechrau gyda chyflwyno'r hysbysiad, i ddiwedd y cyfnod hwnnw; neu

Feed business emergency prohibition notices and orders

22.-(1) If an authorised officer of an enforcement authority is satisfied that the health risk condition is fulfilled with respect to any feed business the officer may by a notice served on the relevant feed business operator (in these Regulations referred to as a "feed business emergency prohibition notice") impose the appropriate prohibition.

(2) If a magistrates' court is satisfied, on the application of such an officer, that the health risk condition is fulfilled with respect to any feed business, the court must, by an order (in these Regulations referred to as a "feed business emergency prohibition order"), impose the appropriate prohibition.

(3) Such an officer may not apply for a feed business emergency prohibition order unless, at least one day before the date of the application, the officer has served notice on the relevant feed business operator of his or her intention to apply for the order.

(4) Paragraphs (2) and (3) of regulation 21 apply for the purposes of this regulation as they apply for the purposes of that regulation, but as if the reference in paragraph (2) to risk of injury to health were a reference to imminent risk of injury.

(5) As soon as practicable after the service of a feed business emergency prohibition notice, an authorised officer of an enforcement authority must affix a copy of the notice in a conspicuous position on such premises used for the purposes of the feed business as the officer considers appropriate; and any person who knowingly contravenes such a notice will be guilty of an offence.

(6) As soon as practicable after the making of a feed business emergency prohibition order, an authorised officer of an enforcement authority must-

- (a) serve a copy of the order on the relevant feed business operator; and
- (b) affix a copy of the order in a conspicuous position on such premises used for the purposes of the feed business as the officer considers appropriate,

and any person who knowingly contravenes such an order is guilty of an offence.

(7) A feed business emergency prohibition notice will cease to have effect-

- (a) if no application for a feed business emergency prohibition order is made within the period of three days beginning with the service of the notice, at the end of that period; or

(b) os gwneir cais o'r fath felly, ar ôl i lys benderfynu ar y cais yn derfynol neu ar ôl terfynu'r cais.

(8) Bydd hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid neu orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid yn peidio â bod yn effeithiol ar ôl i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif i'r perwyl ei fod yn fodlon bod gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wedi cymryd camau digonol i sicrhau nad yw'r amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mwyach mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid.

(9) Mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif o dan baragraff (8) o fewn tri diwrnod ar ôl bod yn fodlon fel y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw; ac ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais am dystysgrif o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod-

- (a) penderfynu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 diwrnod p'un a yw wedi'i fodloni felly ai peidio; a
- (b) os yw'n penderfynu nad yw wedi'i fodloni felly, hysbysu gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(10) Pan fo hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid yn cael ei gyflwyno i weithredwr busnes bwyd anifeiliaid, mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddigolledu'r gweithredwr mewn perthynas ag unrhyw golled a gafwyd am fod y gweithredwr wedi cydymffurfio â'r hysbysiad-

- (a) oni wneir cais am orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid o fewn y cyfnod o dri diwrnod yn dechrau gyda chyflwyno'r hysbysiad; a
- (b) oni bai bod y llys yn datgan ei bod yn fodlon, ar ôl gwrandao'r cais, fod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas â'r busnes bwyd anifeiliaid pan gyflwynwyd yr hysbysiad,

a phenderfynir ar unrhyw anghydfod ynglŷn â'r hawl i unrhyw ddigollediad neu swm y digollediad sy'n daladwy o dan y paragraff hwn drwy gymrodeddu.

Cosbau am dramgwyddau mewn perthynas â hysbysiadau gwella, gorchmynion gwahardd etc

23. Mae unrhyw un sy'n euog o dramgwydd o dan reoliad 17(2), 21(5) neu 22(5) neu (6) yn agored-

- (a) ar gollfarn ddiannod i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu'r ddau; neu
- (b) ar gollfarn ar ddiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu'r ddau.

(b) if such an application is so made, on the determination or abandonment of the application.

(8) A feed business emergency prohibition notice or a feed business emergency prohibition order will cease to have effect on the issue by the enforcement authority of a certificate to the effect that it is satisfied that the feed business operator has taken sufficient measures to secure that the health risk condition is no longer fulfilled with respect to the feed business.

(9) The enforcement authority must issue a certificate under paragraph (8) within three days of being satisfied as mentioned in that paragraph; and on an application by the feed business operator for such a certificate, the authority must-

- (a) determine as soon as is reasonably practicable and in any event within 14 days whether or not it is so satisfied; and
- (b) if it determines that it is not so satisfied, give notice to the feed business operator of the reasons for that determination.

(10) Where a feed business emergency prohibition notice is served on a feed business operator, the enforcement authority must compensate the operator in respect of any loss suffered by reason of the operator complying with the notice unless-

- (a) an application for a feed business emergency prohibition order is made within the period of three days beginning with the service of the notice; and
- (b) the court declares itself satisfied, on the hearing of the application, that the health risk condition was fulfilled with respect to the feed business at the time when the notice was served,

and any disputed question as to the right to or the amount of any compensation payable under this paragraph is determinable by arbitration.

Penalties for offences in relation to improvement notices, prohibition orders etc

23. Anyone guilty of an offence under regulation 17(2), 21(5) or 22(5) or (6) is liable-

- (a) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or a fine not exceeding the statutory maximum or both;
- (b) on conviction on indictment to a term of imprisonment not exceeding two years or a fine or both.

Pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig

24.-(1) At ddibenion gweithredu a gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig caiff swyddog awdurdodedig ar bob adeg resymol, ac ar ôl cyflwyno dogfen ddilys briodol sy'n dangos ei awdurdod os gofynnir iddo wneud hynny, fynd i mewn i-

- (a) unrhyw fangre y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu bod bwyd anifeiliaid wedi cael ei weithgynhyrchu neu ei gynhyrchu neu'n cael ei weithgynhyrchu neu ei gynhyrchu, neu'n cael ei gadw er mwyn ei osod ar y farchnad, wedi'i ymgorffori mewn cynnyrch arall, neu wedi'i ddefnyddio; neu
- (b) unrhyw fangre (nad yw'n fangre a ddefnyddir fel annedd yn unig) y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu bod unrhyw fwyd anifeiliaid yno sydd gan feddiannydd y fangre yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth.

(2) Os bydd ynad heddwch, ar ôl cael gwybodaeth ysgrifenedig ar lw, yn fodlon bod sail resymol dros fynd i mewn i unrhyw gyfryw fangre fel y nodir ym mharagraff (1), a naill ai-

- (a) mae mynediad i'r fangre wedi cael ei wrthod, neu y deallir y gall gael ei wrthod, a hysbyswyd y meddiannydd o'r bwriad i wneud cais am warant; neu
- (b) byddai cais i gael mynediad neu roi'r cyfryw hysbysiad yn mynd yn groes i'r bwriad o gael mynediad, neu mae'r achos yn un brys, neu mae'r fangre heb ei feddiannu neu mae'r meddiannydd yn absennol dros dro,

caiff yr ynad drwy warant a lofnodwyd ganddo awdurdodi'r swyddogion awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, drwy rym rhesymol os bydd angen.

(3) Bydd pob gwarant a roddir o dan y rheoliad hwn yn parhau mewn grym am gyfnod o fis.

(4) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu warant a roddwyd oddi tano, fynd â'r cyfryw bersonau eraill gydag ef a'r cyfryw offer ag yr ymddengys i'r swyddog eu bod yn angenrheidiol, ac wrth adael unrhyw fangre heb ei feddiannu y mae wedi mynd i mewn iddo yn rhinwedd y cyfryw warant mae'n rhaid iddo ei adael wedi'i gau'n ddiogel mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd cyn mynd i mewn iddo.

(5) Mae hawl gan swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu warant o roddwyd oddi tano, i archwilio-

- (a) unrhyw ddeunydd yr ymddengys i'r swyddog mai bwyd anifeiliaid ydyw;
- (b) unrhyw eitem yr ymddengys i'r swyddog yn gynhwysyn neu becyn a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio i storio, lapio neu becynnu unrhyw fwyd anifeiliaid, neu i fod yn label neu'n hysbyseb a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio mewn cysylltiad â bwyd anifeiliaid; neu

Powers of entry for authorised officers

24.-(1) For the purposes of executing and enforcing specified feed law an authorised officer may at all reasonable times, and on producing, if requested to do so, some duly authenticated document showing his or her authority, enter-

- (a) any premises on which the officer has reasonable cause to believe that feed has been, or is being, manufactured or produced, or is being kept for the purpose of being placed on the market, incorporated in another product or used; or
- (b) any premises (not being premises used only as a dwelling) on which the officer has reasonable cause to believe that there is any feed which the occupier of the premises has in his or her possession or under his or her control.

(2) If a justice of the peace, on sworn information in writing, is satisfied that there is reasonable ground for entry into any such premises as are mentioned in paragraph (1), and either-

- (a) that admission to the premises has been refused, or a refusal is apprehended, and that notice of the intention to apply for a warrant has been given to the occupier; or
- (b) that an application for admission or the giving of such a notice would defeat the object of the entry, or that the case is one of urgency, or that the premises are unoccupied or the occupier temporarily absent,

the justice may by warrant signed by him or her authorise the authorised officer to enter the premises, if need be by reasonable force.

(3) Every warrant granted under this regulation will continue in force for a period of one month.

(4) An authorised officer entering premises by virtue of this regulation, or of a warrant issued under it, may take with him or her such other persons and such equipment as may appear to the officer to be necessary, and on leaving any unoccupied premises which he or she has entered by virtue of such a warrant, must leave them as effectively secured against unauthorised entry as that in which they were found.

(5) An authorised officer entering premises by virtue of this regulation, or of a warrant issued under it, has the right to inspect-

- (a) any material appearing to the officer to be feed;
- (b) any article appearing to the officer to be a container or package used or intended to be used to store, wrap or package any feed, or to be a label or advertisement used or intended to be used in connection with feed; or

(c) unrhyw gerbyd, peiriant neu offer yr ymddengys i'r swyddog eu bod yn cael eu defnyddio, neu y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio, mewn cysylltiad â gweithgynhyrchu, cynhyrchu, storio, cludo neu ddefnyddio bwyd anifeiliaid, ac unrhyw broses o weithgynhyrchu, cynhyrchu, storio, cludo neu ddefnyddio bwyd anifeiliaid.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), mae gan swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu warrant a roddwyd oddi tano, yr hawl i gymryd ar y safle hwnnw, yn y modd rhagnodedig, sampl o unrhyw ddeunydd yr ymddengys i'r swyddog ei fod yn fwyd anifeiliaid a weithgynhyrchir, a gynhyrchir, a roddir ar y farchnad neu y bwriedir ei roi ar y farchnad neu'n ddeunydd a ddefnyddir, neu y bwriedir ei ddefnyddio, fel bwyd anifeiliaid.

(7) Heb ragfarnu ei bwerau a'i ddyletswyddau o ran cymryd samplau yn y modd rhagnodedig, caiff swyddog awdurdodedig gymryd sampl mewn modd ac eithrio'r modd a ragnodir o unrhyw ddeunydd a werthwyd i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid neu y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer ei werthu fel y cyfryw.

(8) Pan fo swyddog awdurdodedig, at ddiben cymryd sampl yn unol â pharagraff (6) neu (7), yn cymryd peth ohono o bob un neu fwy o gynwysyddion, sydd wedi'u rhoi ar ddangos i'w gwerthu drwy fanwerthu, ac na fydd dim un ohonynt yn pwysu mwy na chwe chilogram, caiff perchennog y cynhwysydd neu'r cynwysyddion ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog awdurdodedig brynu'r cynhwysydd neu'r cynwysyddion ar ran yr awdurdod y mae'r swyddog yn gweithredu drosto.

(9) Mae gan swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu yn rhinwedd gwarant a roddwyd oddi tano, yr hawl-

- (a) i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cynnal, neu yr ymddengys ei fod yn cynnal, busnes bwyd anifeiliaid, neu unrhyw berson a gyflogir mewn cysylltiad â'r cyfryw fusnes, gyflwyno unrhyw gofnod (ym mha ffurf bynnag a ddelir) mewn perthynas ag ymarfer unrhyw weithgaredd wrth gynnal y busnes hwnnw neu sy'n deillio o unrhyw weithgaredd wrth gynnal y busnes hwnnw, ac sydd yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth; a
- (b) archwilio a chymryd copïau o unrhyw gofnod, neu unrhyw eitem mewn unrhyw gofnod a gyflwynir yn rhinwedd yr is-baragraff blaenorol.

(10) Mae gan swyddog awdurdodedig sy'n arfer y pŵer a roddir gan baragraff (9) mewn perthynas â chofnod a ddelir drwy gyfrifiadur-

- (a) yr hawl ar unrhyw adeg resymol i gael mynediad i unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar neu

(c) any vehicle, plant or equipment appearing to the officer to be used, or intended to be used, in connection with the manufacture, production, storage, transport or use of feed, and any process of manufacture, production, storage, transport or use of feed.

(6) Subject to paragraph (8), an authorised officer entering premises by virtue of this regulation, or of a warrant issued under it, has the right to take on those premises, in the prescribed manner, a sample of any material appearing to the officer to be a feed manufactured, produced, placed on the market or intended to be placed on the market or to be material used, or intended to be used, as feed.

(7) Without prejudice to his or her powers and duties as to the taking of samples in the prescribed manner, an authorised officer may take a sample in a manner other than that prescribed of any material which has been sold for use as feed or which the officer has reasonable cause to believe to be intended for sale as such.

(8) Where, for the purpose of taking a sample pursuant to paragraph (6) or (7), an authorised officer takes some of it from each of one or more containers, which are exposed for sale by retail, and none of which weighs more than six kilograms, the owner of the container or containers may require the authorised officer to purchase the container or containers on behalf of the authority for whom the officer acts.

(9) An authorised officer entering premises by virtue of this regulation, or of a warrant issued under it, has the right-

- (a) to require any person carrying on, or appearing to be carrying on, a feed business, or any person employed in connection with such a business, to produce any record (in whatever form it is held) relating to or arising out of the exercise in the course of that business of any such activity, and which is in his or her possession or under his or her control; and
- (b) to inspect and take copies of any record, or of any entry in any record produced in pursuance of the preceding sub-paragraph.

(10) An authorised officer exercising the power conferred by paragraph (9) in respect of a record held by means of a computer-

- (a) is entitled at any reasonable time to have access to, and inspect and check the operation

ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd, neu yr ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio neu ei fod wedi cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r cofnod dan sylw a'i archwilio a gwirio ei weithrediad;

(b) caiff ei gwneud yn ofynnol-

- (i) i'r person y defnyddir neu y defnyddiwyd y cyfrifiadur felly ganddo neu ar ei ran, neu
- (ii) i unrhyw berson sy'n gyfrifol am weithredu'r cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd neu sydd fel arall yn ymwneud â gweithrediad y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd,

i roi i'r swyddog awdurdodedig y cyfryw gymorth rhesymol ag sydd ei angen arno at y diben hwnnw; ac

(c) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r cofnod, neu ran o'r cofnod, gael ei gyflwyno ar ffurf y gellir ei gymryd ymaith.

(11) Pan fo (yn achos person sy'n cynnal busnes, neu y mae'n ymddangos ei fod yn cynnal busnes gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid cyfansawdd neu fod ei fusnes yn cynnwys hynny)-

- (a) gofyniad yn cael ei wneud o dan baragraff (9)(a) mewn y mae'n ymddangos ei fod yn perthynas ag unrhyw fwyd anifeiliaid sydd, neu yr ymddengys ei fod wedi'i fwriadu at ddiben maethol penodol; a
- (b) ar adeg gwneud y gofyniad, y cofnod y gwnaed y gofyniad mewn perthynas ag ef wedi'i gyhoeddi a phan fydd ar gael ar ffurf hygrych at ddefnydd y cyhoedd,

tybir bod y person y gosodir y gofyniad arno yn cydymffurfio ag ef, os yw'r person, ar adeg ei wneud, yn darparu i'r swyddog awdurdodedig sy'n ei wneud fanylion cywir a digonol am y cyhoeddiad o dan sylw, a lle y gellir cael copi ohono.

(12) Mae gan swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu warrant a roddwyd oddi tano, yr hawl i atafaelu a chadw unrhyw gofnod y mae gan y swyddog sail rhesymol dros gredu ei fod yn gofnod y gall fod ei angen fel tystiolaeth mewn rheithdrefnau o dan y gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig.

(13) Yn y rheoliad hwn-

mae i "bwyd anifeiliaid cyfansawdd" ("*compound feeding stuff*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2005;

dehonglir "bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddiben maethol penodol" ("*feeding stuff intended for a particular nutritional purpose*") yn unol â'r diffiniadau o "bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddiben maethol penodol" ("*feeding stuff intended for a particular nutritional purpose*") a "diben maethol

of, any computer and associated apparatus or material which is or has been, or which it appears is or has been, in use in connection with the record in question;

(b) may require-

- (i) the person by whom or on whose behalf the computer is or has been so used, or
- (ii) any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material,

to afford the authorised officer such reasonable assistance as he or she may require for that purpose; and

(c) may require the record, or an extract from the record, to be produced in a form in which it may be taken away.

(11) Where (in the case of a person carrying on, or appearing to carry on, a business which consists of or includes the manufacture of a compound feeding stuff)-

- (a) a requirement is made under paragraph (9)(a) in relation to any feeding stuff which is, or appears to be, intended for a particular nutritional purpose; and
- (b) at the time the requirement is made, the record in respect of which it is made has been published and is available in accessible form for public use,

the person of whom the requirement is made will be deemed to comply with it if, at the time it is made, that person supplies the authorised officer making it with correct and adequate details of the publication concerned, and of where a copy of it may be obtained.

(12) An authorised officer entering premises by virtue of this regulation, or of a warrant issued under it, has the right to seize and detain any record which the officer has reasonable cause to believe to be a record which may be required as evidence in proceedings under specified feed law.

(13) In this regulation-

"compound feeding stuff" ("*bwyd anifeiliaid cyfansawdd*") has the meaning given in regulation 2(1) of the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2005;

"feeding stuff which is intended for a particular nutritional purpose" ("*bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddiben maethol penodol*") is construed in accordance with the definitions of "feeding stuff intended for a particular nutritional purpose" ("*bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddiben maethol*")

penodol" ("*particular nutritional purpose*") yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2005;

(14) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn awdurdodi unrhyw berson ac eithrio gyda chaniatâd yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1), i fynd i mewn i unrhyw fangre-

- (a) lle y cedwir unrhyw anifail neu aderyn ac arnynt unrhyw glefyd y mae'r Ddeddf honno yn gymwys iddo; a
- (b) sydd mewn man y datganwyd o dan y Ddeddf honno ei fod wedi'i heintio gyda chlefyd o'r fath.

Archwilio, atafaelu a chadw bwyd anifeiliaid a amheuir

25.-(1) Pan fo swyddog awdurdodedig wedi archwilio neu wedi samplu unrhyw ddeunydd o dan reoliad 24, bydd paragraffau (2) i (7) yn gymwys, os ymddengys i'r swyddog, wrth wneud y cyfryw archwiliad, neu wrth ddadansoddi samplau a gymerwyd, fod y deunydd yn methu â chydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig.

(2) Caiff y swyddog awdurdodedig naill ai-

- (a) rhoi hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol am y deunydd na ddylai'r deunydd neu unrhyw gyfran ohono a bennwyd hyd nes y tynnir yr hysbysiad yn ôl-
 - (i) cael ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid; a
 - (ii) na ddylai naill ai gael ei symud neu na ddylai gael ei symud ac eithrio i ryw le a ragnodwyd yn yr hysbysiad; neu
- (b) atafaelu'r deunydd er mwyn i ynad heddwch ymdrin ag ef,

ac mae unrhyw berson sy'n torri gofyniad hysbysiad o dan is-baragraff (a) uchod gan wybod ei fod yn gwneud hynny, yn euog o dramgwydd.

(3) Pan fo'r swyddog awdurdodedig yn ymarfer y pwerau a roddir gan baragraff 2(a), mae'n rhaid i'r swyddog, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 21 diwrnod, benderfynu p'un a yw'n fodlon bod y deunydd yn cydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) ai peidio ac-

- (a) os yw wedi'i fodloni felly, tynnu'r hysbysiad yn ôl ar unwaith;
- (b) os nad yw wedi'i fodloni felly, cael peri bod ynad heddwch yn ymdrin â'r mater o dan baragraff (5).

(4) Pan fo'r swyddog awdurdodedig yn arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2(b) neu'n cymryd camau o dan baragraff 3(b), mae'n rhaid i'r swyddog hysbysu'r person sy'n gyfrifol am y deunydd o fwriad y swyddog i gael ynad heddwch i ymdrin ag ef ac-

penodol") and "*particular nutritional purpose*" ("*diben maethol penodol*") in regulation 2(1) of the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2005;

(14) Nothing in this regulation authorises any person, except with the permission of the local authority under the Animal Health Act 1981(1), to enter any premises-

- (a) on which an animal or bird affected with any disease to which that Act applies is kept; and
- (b) which is situated in a place declared under that Act to be infected with such a disease.

Inspection, seizure and detention of suspect feed

25.-(1) Where an authorised officer has inspected or sampled any material under regulation 24, paragraphs (2) to (7) will apply where, on such an inspection, or upon analysis of samples taken, it appears to the officer that the material fails to comply with the requirements of specified feed law.

(2) The authorised officer may either-

- (a) give notice to the person in charge of the material that, until the notice is withdrawn, the material or any specified portion of it-
 - (i) is not to be used as feed; and
 - (ii) either is not to be removed or is not to be removed except to some place specified in the notice; or
- (b) seize the material in order to have it dealt with by a justice of the peace,

and any person who knowingly contravenes the requirements of a notice under sub-paragraph (a) above is guilty of an offence.

(3) Where the authorised officer exercises the powers conferred by paragraph 2(a), the officer must, as soon as is reasonably practicable and in any event within 21 days, determine whether or not he or she is satisfied that the material complies with the requirements mentioned in paragraph (1) and-

- (a) if he or she is so satisfied, forthwith withdraw the notice;
- (b) if he or she is not so satisfied, proceed to have the matter dealt with by a justice of the peace under paragraph (5).

(4) Where the authorised officer exercises the powers conferred by paragraph 2(b) or takes action under paragraph 3(b), the officer must inform the person in charge of the material of the officer's intention to have it dealt with by a justice of the peace and-

(1) 1981 p. 22.

(1) 1981 c. 22.

(a) bydd gan unrhyw berson a allai fod yn agored o dan ddarpariaethau cyfraith bwyd anifeiliaid a bennwyd i gael ei erlyn mewn perthynas â'r deunydd, os bydd y person hwnnw yn ymddangos gerbron yr ynad heddwch sy'n ymdrin â'r deunydd, yr hawl i gael gwrandawriad a galw ar dystion; a

(b) caiff yr ynad heddwch hwnnw fod yn aelod o'r llys y cyhuddir unrhyw berson o dramgwydd o dan y darpariaethau hynny mewn perthynas â'r deunydd hwnnw ger ei bron, ond nid oes angen iddo fod felly.

(5) Os ymddengys i ynad heddwch, ar sail y cyfryw dystiolaeth y cred ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau, fod unrhyw ddeunydd y mae'n ymdrin ag ef o dan y rheoliad hwn, yn methu â chydymffurfio â gofyniad y gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig yna mae'n rhaid iddo gondemnio'r deunydd a gorchymyn-

(a) i'r deunydd gael ei ddinistrio neu ei waredu yn y cyfryw fodd ag sy'n ei atal rhag cael ei ddefnyddio fel bwyd y bwriedir i bobl ei fwyta neu fel bwyd anifeiliaid; a

(b) i unrhyw dreuliau yr aethpwyd iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad â dinistrio neu waredu gael eu talu gan weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid.

(6) Os tynnir hysbysiad o dan baragraff 2(a) yn ôl, neu os bydd yr ynad heddwch sy'n ymdrin ag unrhyw ddeunydd o dan y rheoliad hwn yn gwrthod ei gondemnio, mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddiogledu perchennog y deunydd am unrhyw ddibrisiant yn ei werth o ganlyniad i'r camau a gymerwyd gan y swyddog awdurdodedig.

(7) Penderfynir ar unrhyw anghydfod ynglŷn â'r hawl i unrhyw ddioglediad neu swm y digollediad sy'n daladwy o dan baragraff (6) drwy gymrodeddu.

(8) Mae unrhyw un y bernir ei fod yn euog o dramgwydd o dan baragraff (2) yn agored-

(a) ar gollfarn ddiannod i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu'r ddau; neu

(b) ar gollfarn ar ddiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu'r ddau.

Cyflwyno hysbysiadau

26.-(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad a roddwyd o dan reoliad 9, 10, 11, 17, 22 neu 25-

(a) cael ei lofnodi gan swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod gorfodi;

(b) os honnir ei fod yn dwyn llofnod (sy'n cynnwys ffacsimili o lofnod ym mha fodd bynnag y'i hatgynhyrchir) person y mynegir ei

(a) any person who might be liable under the provisions of specified feed law to a prosecution in respect of the material will, if that person attends before the justice of the peace by whom the material falls to be dealt with, be entitled to be heard and to call witnesses; and

(b) that justice of the peace may, but need not, be a member of the court before which any person is charged with an offence under those provisions in relation to that material.

(5) If it appears to a justice of the peace, on the basis of such evidence as he or she considers appropriate in the circumstances, that any material falling to be dealt with by him or her under this regulation fails to comply with the requirements of specified feed law then he or she must condemn the material and order-

(a) the material to be destroyed or to be so disposed of as to prevent it from being used as food for human consumption, or for feed; and

(b) any expenses reasonably incurred in connection with the destruction or disposal to be defrayed by the feed business operator.

(6) If a notice under paragraph 2(a) is withdrawn, or the justice of the peace by whom any material falls to be dealt with under this regulation refuses to condemn it, the enforcement authority must compensate the owner of the material for any depreciation in its value resulting from the action taken by the authorised officer.

(7) Any disputed question as to the right or the amount of any compensation payable under paragraph (6) is determinable by arbitration.

(8) Anyone found guilty of an offence under paragraph (2) is liable-

(a) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or a fine not exceeding the statutory maximum or both; or

(b) on conviction on indictment to a term of imprisonment not exceeding two years or a fine or both.

Service of Notices

26.-(1) Any notice to be given under regulation 9, 10, 11, 17, 22 or 25-

(a) must be signed by an authorised officer acting on behalf of the enforcement authority;

(b) if purporting to bear the signature (which includes a facsimile of a signature by whatever means reproduced) of a person who is

fod yn swyddog awdurdodedig, tybir ei fod, wedi'i gyflwyno'n briodol gan y cyfryw swyddog awdurdodedig, oni phrofir i'r gwrthwyneb;

- (c) yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid iddo gael ei roi i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid neu i'r person y cyfeirir ato yn rheoliad 25(2)(a) drwy-
- (i) ei ddsbarthu i'r person hwnnw; neu
 - (ii) ei adael, neu ei anfon mewn llythyr rhagdaledig wedi'i gyfeirio at y person hwnnw yn ei swyddfa; neu
 - (iii) yn achos cwmni neu gorff corfforedig, drwy ei ddsbarthu i'w ysgrifennydd neu ei glerc yn ei swyddfa gofrestrdedig neu ei brif swyddfa, neu drwy ei anfon mewn llythyr rhagdaledig wedi'i gyfeirio at yr ysgrifennydd neu'r clerc yn y swyddfa honno; neu
 - (iv) yn achos unrhyw berson arall drwy ei adael neu ei anfon mewn llythyr rhagdaledig wedi'i gyfeirio at y person hwnnw yn ei gartref arferol neu ei gartref hysbys diwethaf.

(2) Pan na fo'n ymarferol, ar ôl ymholiad rhesymol i ganfod enw a chyfeiriad y person y dylid cyflwyno'r hysbysiad iddo, neu pan na fo'r fangre lle y cynhelir busnes bwyd anifeiliaid wedi'i feddiannu, gellir cyfeirio'r hysbysiad at "berchenog" neu "feddiannydd" y fangre lle y cynhelir y busnes bwyd anifeiliaid, a'i ddsbarthu i rywun yn y fangre honno, neu os nad oes neb ar y fangre y gellir ei ddsbarthu iddo, drwy osod yr hysbysiad neu gopi ohono mewn man amlwg ar y fangre.

Tramgwyddau yn ymwneud ag arfer pwerau gan swyddogion awdurdodedig

27.-(1) Mae unrhyw berson sydd yn fwiadol yn atal swyddog awdurdodedig wrth arfer ei bwerau o dan y Rheoliadau hyn neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a wnaed yn gyfreithlon gan y swyddog wrth arfer y cyfryw bwerau yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 o'r raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis neu'r ddau.

(2) Mae unrhyw berson nad yw'n swyddog awdurdodedig sy'n honni bod yn swyddog awdurdodedig o dan y Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis neu'r ddau.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), os bydd unrhyw berson yn datgelu i unrhyw berson arall-

- (a) unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw broses weithgynhyrchu neu gyfrinach

expressed to be an authorised officer, will be deemed, unless the contrary is proven, to have been duly issued by such an authorised officer;

- (c) subject to paragraph (2), must be given to the feed business operator or to the person mentioned in regulation 25(2)(a) by-
- (i) delivering it to that person; or
 - (ii) by leaving it, or sending it in a prepaid letter addressed to that person at his or her office; or
 - (iii) in the case of an incorporated company or body, by delivering it to their secretary or clerk at their registered or principal office, or by sending it in a prepaid letter addressed to the secretary or clerk, as the case may be, at that office; or
 - (iv) in the case of any other person by leaving it or sending it in a prepaid letter addressed to that person at his or her usual or last known residence.

(2) Where it is not practicable after reasonable enquiry to ascertain the name and address of the person on whom the notice should be served, or where the premises in which feed business is carried on are unoccupied, the notice may be addressed to the "owner" or "occupier" of the premises in which the feed business is carried on, and delivered to some person on those premises, or if there is no person on the premises to whom it can be delivered, by affixing it or a copy of it to some conspicuous part of the premises.

Offences relating to the exercise of powers by authorised officers

27.-(1) Any person who wilfully obstructs an authorised officer in the exercise of his or her powers under these Regulations or fails to comply with any requirement lawfully made by the officer in the exercise of such powers is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or to a term of imprisonment not exceeding three months or to both.

(2) Any person not being an authorised officer who purports to act as such under these Regulations is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale or to a term of imprisonment not exceeding three months or to both.

(3) Subject to paragraph (4), if any person discloses to any other person-

- (a) any information in relation to any manufacturing process or trade secret which

fasnachol a gafwyd gan y person hwnnw ar y fangre y mae wedi mynd i mewn iddo yn rhinwedd y Rheoliadau hyn, neu

- (b) unrhyw wybodaeth arall a gafwyd gan y person hwnnw yn rhinwedd y Rheoliadau hyn,

bydd y person hwnnw yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol oni ddatgelwyd y wybodaeth wrth i'r person hwnnw neu unrhyw berson arall gyflawni swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn neu er mwyn i'r person hwnnw neu unrhyw berson arall gyflawni swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i atal swyddog awdurdodedig sydd wedi cymryd sampl o dan reoliad 24 rhag datgelu-

- (a) i'r gweithgynhyrchwr neu werthwr diwethaf y deunydd, wybodaeth ynglŷn â pha le y cymerwyd y sampl a'r person y cymerwyd y sampl ganddo;
- (b) i'r gweithgynhyrchwr neu'r gwerthwr diwethaf hwnnw neu i unrhyw berson yr oedd ganddo y deunydd hwnnw ar ei fangre, wybodaeth ynglŷn â chanlyniadau unrhyw ddadansoddiad o'r sampl honno; neu
- (c) unrhyw wybodaeth y mae angen ei datgelu er mwyn atal risg ddirifol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu i'r amgylchedd rhag codi.

Atebolrwydd am wariant

28.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) mae'n rhaid i unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r awdurdod gorfodi yn rhinwedd Erthygl 54(5) (camau gweithredu yn achos diffyg cydymffurfiaeth) o Reoliad 882/2004 gael eu talu gan weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid i'r awdurdod gorfodi os gofynnir iddo wneud hynny.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas ag Erthygl 54(2)(g), (mesurau y cyfeirir atynt yn Erthygl 19 ar anfoniadau o drydydd gwledydd), o Reoliad 882/2004.

Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi)

29.-(1) Mae'r darpariaethau canlynol o Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 yn gymwys, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir ym mharagraff (2), at ddibenion y Rheoliadau hyn fel y maent yn gymwys mewn perthynas â samplu a dadansoddi o dan y Rheoliadau hynny-

- (a) rheoliad 2 (swm rhagnodedig at ddibenion cyfran a samplwyd);
- (b) rheoliad 3 (modd cymryd a selio samplau);
- (c) rheoliad 4 (modd anfon samplau);
- (ch) rheoliad 5 (cymwysterau dadansoddwyr

has been obtained by that person on premises he or she has entered by virtue of these Regulations, or

- (b) any other information obtained by that person in pursuance of these Regulations,

that person is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale unless the disclosure was made in and for the purpose of the performance by that person or any other person of functions under these Regulations.

(4) Paragraph (3) does not apply to prevent an authorised officer who has taken a sample under regulation 24 from disclosing-

- (a) to the manufacturer or to the last seller of the material, information as to the place where and the person from whom the sample was taken;
- (b) to that manufacturer or last seller or to any person who had that material on his or her premises, information as to the results of any analysis of that sample; or
- (c) any information which it is necessary to disclose in order to prevent the occurrence of a serious risk to human or animal health or to the environment.

Liability for expenditure

28.-(1) Subject to paragraph (2) any sums due to the enforcement authority by virtue of Article 54(5) (action in the case of non-compliance) of Regulation 882/2004 must be paid by the feed business operator to the enforcement authority on demand.

(2) This regulation does not apply in relation to Article 54(2)(g), (measures referred to in Article 19 on consignments from third countries), of Regulation 882/2004.

Application of various provisions of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations

29.-(1) The following provisions of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 apply, subject to the modifications specified in paragraph (2), for the purposes of these Regulations as they apply in relation to sampling and analysis under those Regulations-

- (a) regulation 2 (prescribed amount for the purposes of a sampled portion);
- (b) regulation 3 (manner of taking and sealing samples);
- (c) regulation 4 (method of sending samples);
- (d) regulation 5 (qualifications of agricultural

amaethyddol);

- (d) rheoliad 6 (cymhwyso dulliau dadansoddi);
- (dd) rheoliad 7 (ffurf ar dystysgrif ddadansoddi);
- (e) rheoliad 8 (terfyn amser ar gyfer dadansoddi cynnwys olew);
- (f) Atodlen 1 (rheolau manwl ynglŷn â samplu);
- (ff) Atodlen 2 (dulliau dadansoddi);
- (g) Atodlen 3 (ffurf ar dystysgrif ddadansoddi).

(2) Darllenir Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 fel y maent yn gymwys i Gymru fel pe bai yn y Rheoliadau hynny-

- (a) unrhyw gyfeiriad at "feeding stuffs" yn gyfeiriad at "feed";
- (b) unrhyw gyfeiriad at "inspector" yn gyfeiriad at "authorised officer";
- (c) yr ymadrodd "analysed for the purposes of carrying out official controls and the enforcement of specified feed law" gan fod y term hwnnw wedi'i ddiffinio yn Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005, yn cael ei roi yn lle "analysed pursuant to the Act";
- (ch) yn rheoliad 4, yr ymadrodd "under regulation 30(1)(b) and (c) of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005" yn cael ei roi yn lle "in pursuance of subsection (1)(b) or (2) of section 77 of the Act";
- (d) yn rheoliad 7, yr ymadrodd "under regulation 30(4) of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005" yn cael ei roi yn lle "pursuant to section 77(4) of the Act";
- (dd) yn Atodlen 1, ym mharagraff 5(1) o Ran II yr ymadrodd "under regulation 24(6) of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005" yn cael ei roi yn lle "in accordance with section 76(7) of the Act as that section is modified by regulation 10 of the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999";
- (e) yn Atodlen 3-
 - (i) bod "or of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005" yn cael ei fewnosod yn Rhan I ar ôl yr ymadrodd "Part IV of the Agriculture Act 1970";
 - (ii) bod "or the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005" yn cael ei ychwanegu yn Rhan II yn nodyn (1) ar ôl ymadrodd "the Agriculture Act 1970".

analysts);

- (e) regulation 6 (application of methods of analysis);
- (f) regulation 7 (form of certificate of analysis);
- (g) regulation 8 (time limit for analysis of oil content);
- (h) Schedule 1 (detailed rules for sampling);
- (i) Schedule 2 (methods of analysis);
- (j) Schedule 3 (form of certificate of analysis).

(2) The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 as they apply in relation to Wales are read as if in those Regulations-

- (a) any reference to "feeding stuffs" were a reference to "feed";
- (b) any reference to "inspector" were a reference to "authorised officer";
- (c) for the expression "analysed pursuant to the Act" there were substituted "analysed for the purposes of carrying out official controls and the enforcement of specified feed law as that term is defined in the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005";
- (d) in regulation 4, for the expression "in pursuance of subsection (1)(b) or (2) of section 77 of the Act" there were substituted "under regulation 30(1)(b) and (c) of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005";
- (e) in regulation 7, for the expression "pursuant to section 77(4) of the Act" there were substituted "under regulation 30(4) of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005";
- (f) in Schedule 1, in paragraph 5(1) of Part II for the expression "in accordance with section 76(7) of the Act as that section is modified by regulation 10 of the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999" there were substituted "under regulation 24(6) of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005";
- (g) in Schedule 3-
 - (i) in Part I after the expression "Part IV of the Agriculture Act 1970" there were inserted "or of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005";
 - (ii) in Part II in note (1) after the expression "the Agriculture Act 1970" there were added "or the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005".

Y weithdrefn yn ymwneud â samplau i'w dadansoddi

30.-(1) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol â rheoliad 24(6) yn cael sampl ac yn penderfynu trefnu iddo gael ei dadansoddi er mwyn canfod a dorrrir neu a dorrrwyd cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig, mae'n rhaid i'r swyddog rannu'r sampl yn dair rhan sydd mor agos at fod o'r un maint ag y gellir a-

- (a) peri i bob rhan gael ei marcio, ei selio a'i chlymu yn y modd rhagnodedig;
- (b) anfon un rhan ar gyfer ei dadansoddi-
 - (i) at y dadansoddwr amaethyddol ar gyfer yr ardal y mae awdurdod y swyddog awdurdodedig yn deillio ohoni;
 - (ii) os pwrpas y dadansoddiad yw penderfynu ar y lefelau o ddiocsinau neu o ddeuffenylau polychlorinedig sy'n debyg i ddiocsinau yn y sampl, i labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4;
- (c) anfon rhan arall at y person sy'n berchen ar y deunydd a samplwyd neu at asiant y person hwnnw;
- (ch) cadw'r rhan sy'n weddill fel sampl gyfeirio sydd wedi'i selio'n swyddogol.

(2) Os nad person y dylid anfon ato ran o'r sampl o dan baragraff (1) yw'r person a weithgynhyrchodd unrhyw ddeunydd a samplwyd o dan y Rheoliadau hyn, bydd y paragraff hwnnw yn cael effaith fel pe bai cyfeiriad at bedair rhan yn cael ei roi yn lle'r cyfeiriad at dair rhan, ac mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y samplu anfon y bedwaredd ran at y gweithgynhyrhydd, oni wŷr y swyddog pwy yw'r gweithgynhyrhydd a chyfeiriad y gweithgynhyrhydd yn y Deyrnas Unedig ac os na all ganfod hynny ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol.

(3) Mae'n rhaid anfon y rhan o'r sampl a anfonwyd at y dadansoddwr amaethyddol neu, fel y digwydd, i labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4 ar y cyd â datganiad a lofnodwyd gan y swyddog awdurdodedig sy'n cadarnhau i'r sampl gael ei chymryd yn y modd a ragnodir gan Ran II o Atodlen I i Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999.

(4) Mae'n rhaid i'r dadansoddwr amaethyddol neu, fel y digwydd, y labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4, ddadansoddi'r rhan o'r sampl a anfonwyd ato o dan baragraff (1), ac anfon tystysgrif ddadansoddi at y swyddog awdurdodedig, y mae'n rhaid iddo anfon copi at-

- (a) perchennog y deunydd a samplwyd neu asiant y perchennog, a
- (b) os anfonwyd rhan o'r sampl o dan baragraff (2), at y person yr anfonwyd y rhan honno ato.

Procedure relating to samples for analysis

30.-(1) Where in accordance with regulation 24(6) an authorised officer obtains a sample and decides to have it analysed for the purpose of ascertaining whether there is or has been any contravention of specified feed law, the officer must divide the sample into three parts of as near as may be equal size and-

- (a) cause each part to be marked sealed and fastened in the prescribed manner;
- (b) send one part for analysis-
 - (i) to the agricultural analyst for the area of the enforcement authority from which the authorised officer derives his or her authority;
 - (ii) where the purpose of the analysis is to determine the levels of dioxins or dioxin-like PCBs in the sample, to a point 4 compliant laboratory;
- (c) send another part to the person who owns the material sampled or to that person's agent;
- (d) retain and preserve the remaining part as an officially sealed reference sample.

(2) If the person who manufactured any material sampled under these Regulations is not a person to whom part of the sample should be sent under paragraph (1), that paragraph will have effect as if for the reference to three parts there were substituted a reference to four parts, and the authorised officer must within 14 days of the date of sampling send the fourth part to the manufacturer, unless the officer does not know and is unable to ascertain after making reasonable enquiries the identity of the manufacturer or the manufacturer's address in the United Kingdom.

(3) The part of the sample sent to the agricultural analyst or, as the case may be, to the point 4 compliant laboratory must be accompanied by a statement signed by the authorised officer confirming that the sample was taken in the manner prescribed by Part II of Schedule 1 to the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999.

(4) The agricultural analyst or, as the case may be, the point 4 compliant laboratory must analyse the part of the sample sent to him or her under paragraph (1), and send a certificate of analysis to the authorised officer, who must send a copy to-

- (a) the owner of the material sampled or the owner's agent, and
- (b) if a part of the sample was sent under paragraph (2), to the person to whom that part was sent.

(5) Os yw'r dadansoddwr amaethyddol yr anfonwyd y sampl ato o dan baragraff (1)(b)(i) yn penderfynu na ellir gwneud dadansoddiad effeithiol o'r sampl gan y dadansoddwr neu o dan ei gyfarwyddyd mae'n rhaid i'r dadansoddwr ei hanfon at y dadansoddwr amaethyddol ar gyfer ardal arall, ynghyd ag unrhyw ddogfennau eraill a gafodd gyda'r sampl, ac yna bydd paragraff (4) yn gymwys fel pe bai'r sampl wedi'i hanfon at y dadansoddwr arall hwnnw yn wreiddiol.

Ail samplu gan Gemegydd y Llywodraeth

31.-(1) Pan fo rhan o sampl o dan reoliad 30(1)(b) wedi'i dadansoddi a-

- (a) bwriedir dwyn achos neu dygwyd achos yn erbyn person am dramgwydd o dan gyfraith bywd anifeiliaid benodedig; a
- (b) mae'r erlyniad yn bwriadu dangos tystiolaeth o'r canlyniad o'r rhan honno o'r sampl,

bydd paragraffau (2) i (6) yn gymwys.

(2) O ran y swyddog awdurdodedig-

- (a) caiff o'i ddewis ei hun;
- (b) rhaid iddo os bydd yr erlynydd yn gofyn iddo (os person ac eithrio'r swyddog awdurdodedig ydyw); neu
- (c) rhaid iddo (yn ddarostynedig i baragraff (5)) os bydd yr amddiffynnydd yn gofyn iddo,

anfon y rhan a gadwyd o'r sampl at Gemegydd y Llywodraeth i'w dadansoddi.

(3) Mae'n rhaid i Gemegydd y Llywodraeth ddadansoddi yn y modd rhagnodedig y rhan o'r sampl a anfonwyd ato o dan is-baragraff (2) ac anfon at y swyddog awdurdodedig dystysgrif ddadansoddi y mae'n rhaid iddi fod-

- (a) wedi'i chwblhau ar y ffurf a nodir yn Rhan I o Atodlen 3 i Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 ac yn unol â'r nodiadau a nodir yn Rhan II o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny; a
- (b) wedi'i llofnodi gan Gemegydd y Llywodraeth neu gan berson a awdurdodir gan Gemegydd y Llywodraeth i'w llofnodi.

(4) Mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig yn union ar ôl ei derbyn roi i'r erlynydd (os person ac eithrio'r swyddog awdurdodedig ydyw) a'r diffynnydd gopi o dystysgrif ddadansoddi Cemegydd y Llywodraeth.

(5) Lle y gwneir cais o dan baragraff (2)(c), caiff y swyddog awdurdodedig roi hysbysiad ysgrifenedig i'r diffynnydd yn gofyn iddo dalu ffi a bennwyd yn yr hysbysiad mewn perthynas â'r swyddogaethau a enwir ym mharagraff (3), ac os nad yw'r ffi benodedig naill ai'n fwy na-

- (a) cost cyflawni'r swyddogaethau hynny; neu
- (b) y ffi briodol ar gyfer cyflawni unrhyw

(5) If the agricultural analyst to whom the sample was sent under paragraph (1)(b)(i) determines that an effective analysis of the sample cannot be performed by the analyst or under his or her direction the analyst must send it to the agricultural analyst for another area, together with any documents received by him or her with the sample, and paragraph (4) will then apply as if the sample had originally been sent to that other analyst.

Secondary sampling by the Government Chemist

31.-(1) Where a part of a sample sent under regulation 30(1)(b) has been analysed and-

- (a) proceedings are intended to be or have been commenced against a person for an offence under specified feed law; and
- (b) the prosecution intends to adduce evidence of the result of that part of the sample,

paragraphs (2) to (6) will apply.

(2) The authorised officer-

- (a) may of his or her own volition;
- (b) must if requested by the prosecutor (if a person other than the authorised officer); or
- (c) must (subject to paragraph (5)) if requested by the defendant,

send the retained part of the sample to the Government Chemist for analysis.

(3) the Government Chemist must analyse in the prescribed manner the part of the sample sent to him or her under paragraph (2) and send to the authorised officer a certificate of the analysis which must be-

- (a) completed in the form set out in Part I of Schedule 3 to the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 and in accordance with the notes set out in Part II of Schedule 3 to those Regulations; and
- (b) signed by the Government Chemist or by a person authorised by the Government Chemist to sign.

(4) The authorised officer must immediately on receipt supply the prosecutor (if a person other than the authorised officer) and the defendant with a copy of the Government Chemist's certificate of analysis

(5) Where a request is made under paragraph (2)(c), the authorised officer may give notice in writing to the defendant requesting payment of a fee specified in the notice in respect of the functions mentioned in paragraph (3), and if the specified fee does not exceed either-

- (a) the cost of performing those functions; or
- (b) the appropriate fee for the performance of any

swyddogaeth debyg o dan adran 78 o'r Ddeddf,

caiff y swyddog awdurdodedig os na chytuna'r diffynnydd i dalu'r ffi wrthod cydymffurfio â'r cais a wnaed o dan baragraff (2)(c).

(6) Yn y rheoliad hwn-

- (a) mae "diffynnydd" ("*defendant*") yn cynnwys darpar ddiffynnydd; a
- (b) ystyr "y ffi briodol" ("*the appropriate fee*") yw'r cyfryw ffi ag a bennir yn unol â darpariaethau adran 78(10) o'r Ddeddf.

Darpariaethau ychwanegol yn ymwneud â samplu a dadansoddi

32.-(1) Mae unrhyw berson-

- (a) sy'n ymyrryd ag unrhyw ddeunydd fel na fydd unrhyw sampl ohono a gymerwyd neu a gyflwynwyd i'w dadansoddi o dan y Rheoliadau hyn yn cynrychioli'r deunydd yn gywir; neu
- (b) sy'n ymyrryd ag unrhyw sampl a gymerwyd neu a gyflwynwyd i'w dadansoddi o dan y Rheoliadau hyn,

yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel pump ar y raddfa safonol neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis neu'r ddau.

(2) Caiff unrhyw berson yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y dadansoddwr amaethyddol, y dadansoddwr yn y labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4 neu Gemegydd y Llywodraeth fel y digwydd wneud y dadansoddiad y mae'n ofynnol ei wneud o dan reoliad 30(4) neu 31(3).

(3) Bydd dystysgrif ddadansoddi gan ddadansoddwr amaethyddol, dadansoddwr mewn labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4 neu Gemegydd y Llywodraeth, mewn unrhyw reithdrefnau cyfreithiol, yn cael ei derbyn fel tystiolaeth o'r ffeithiau a nodir yn y dystysgrif os-

- (a) cyflwynwyd i'r parti gopi o'r dystysgrif y'i defnyddir fel tystiolaeth yn ei erbyn ddim llai na 21 o ddiwrnodau cyn y gwrandawriad; a
- (b) nad yw'r parti y mae'r dystysgrif i'w rhoi yn ei erbyn fel tystiolaeth wedi cyflwyno i'r parti arall cyn y seithfed diwrnod cyn y gwrandawriad, hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth y dadansoddiad fod yn bresennol.

(4) Bernir bod unrhyw ddogfen yr honnir ei bod yn dystysgrif ddadansoddi at ddibenion paragraff (3) yn dystysgrif o'r fath oni phrofir fel arall.

similar function under section 78 of the Act,

the authorised officer may in the absence of agreement by the defendant to pay the fee refuse to comply with the request made under paragraph (2)(c).

(6) In this regulation-

- (a) "defendant" ("*diffynnydd*") includes a prospective defendant; and
- (b) "the appropriate fee" ("*y ffi briodol*") means such fee as may be fixed in accordance with the provisions of section 78(10) of the Act.

Additional provisions relating to sampling and analysis

32.-(1) Any person who-

- (a) tampers with any material so as to procure that any sample of it taken or submitted for analysis under these Regulations does not correctly represent the material; or
- (b) tampers or interferes with any sample taken or submitted for analysis under these Regulations,

is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level five on the standard scale or imprisonment for a term not exceeding three months or both.

(2) Any analysis required to be made under regulation 30(4) or 31(3) may be performed by any person acting under the direction of the agricultural analyst, the analyst at the point 4 compliant laboratory or the Government Chemist as the case may be.

(3) A certificate of analysis by an agricultural analyst, an analyst at a point 4 compliant laboratory or the Government Chemist will in any legal proceedings be received as evidence of the facts stated in the certificate if the party against whom it is to be given in evidence-

- (a) has been served with a copy of it not less than 21 days before the hearing; and
- (b) has not, before the seventh day preceding the hearing, served on the other party a notice requiring the attendance of the person who made the analysis.

(4) Any document purporting to be a certificate of analysis for the purposes of paragraph (3) will be deemed to be such a certificate unless the contrary is proved.

Pwerau diofyn y Cynulliad ac ardal pwerau'r swyddog awdurdodedig

33.-(1) Os cred y Cynulliad nad yw'r Rheoliadau hyn, neu Reoliad 178/2002 neu Reoliad 183/2005 wedi cael eu gorfodi'n ddigonol yn ardal unrhyw awdurdod gorfodi caiff y Cynulliad benodi un neu fwy o bersonau i arfer yn yr ardal honno y pwerau y gellir eu harfer gan swyddogion awdurdodedig a benodir gan yr awdurdod, ac mae'n rhaid i unrhyw dreuliau yr ardystir gan y Cynulliad bod y Cynulliad wedi mynd iddynt o dan y rheoliad hwn mewn perthynas â'r ardal honno gael eu had-dalu i'r Cynulliad gan yr awdurdod os gofynnir iddo wneud hynny.

(2) Ni chaiff swyddog awdurdodedig arfer ei bwerau o dan y Rheoliadau hyn mewn perthynas ag unrhyw fangre y tu allan i'r ardal y penodir y swyddog ar ei chyfer ac eithrio gyda chaniatâd yr awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y lleolir y fangre honno ynddi.

Diogelu swyddogion awdurdodedig sy'n gweithredu'n ddiwyll

34.-(1) Nid yw swyddog awdurdodedig yn atebol yn bersonol mewn perthynas ag unrhyw weithred ganddo-

- (a) wrth weithredu neu honni bod yn gweithredu'r Rheoliadau hyn; a
- (b) o fewn cwmpas ei gyflogaeth,

os gwnaeth y swyddog y weithred honno ar y gred onest bod ei ddyletswydd o dan y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog ei gwneud neu fod ei ddyletswydd o dan y Rheoliadau hyn yn rhoi'r hawl iddo ei wneud.

(2) Ni ellir dehongli dim ym mharagraff (1) fel rhyddhau unrhyw awdurdod gorfodi o unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â gweithredoedd eu swyddogion.

(3) Pan fo camau wedi cael eu cymryd yn erbyn swyddog awdurdodedig mewn perthynas â gweithred ganddo-

- (a) wrth weithredu neu honni bod yn gweithredu'r Rheoliadau hyn; ond
- (b) y tu allan i gwmpas cyflogaeth y swyddog,

caiff yr awdurdod yswirio'r swyddog rhag y cyfan neu ran o unrhyw iawndal y gorchmynnwyd i'r swyddog ei dalu neu unrhyw gostau y mae'r swyddog wedi mynd iddynt os yw'n fodlon bod y swyddog yn credu'n onest bod y weithred y gwnaed cwyn yn ei chylch o fewn cwmpas ei gyflogaeth.

(4) Trinnir dadansoddwr amaethyddol at ddibenion y rheoliad hwn fel swyddog awdurdodedig, p'un a yw ei benodiad yn un amser cyfan ai peidio.

Assembly's default powers and area of authorised officer's powers

33.-(1) If the Assembly considers that these Regulations, or Regulation 178/2002 or Regulation 183/2005 have been insufficiently enforced in the area of any enforcement authority the Assembly may appoint one or more persons to exercise in that area the powers exercisable by authorised officers appointed by the authority, and any expenses certified by the Assembly as having been incurred by the Assembly under this regulation in respect of that area must be repaid to the Assembly on demand by the authority in question.

(2) An authorised officer may not exercise his or her powers under these Regulations in respect of any premises outside the area for which the officer is appointed except with the consent of the enforcement authority for the area in which those premises are situated.

Protection of authorised officers acting in good faith

34.-(1) An authorised officer is not personally liable in respect of any act done by him or her-

- (a) in the execution or purported execution of these Regulations; and
- (b) within the scope of his or her employment,

if the officer did that act in the honest belief that his or her duty under these Regulations required or entitled the officer to do it.

(2) Nothing in paragraph (1) may be construed as relieving any enforcement authority of any liability in respect of the acts of their officers.

(3) Where an action has been brought against an authorised officer in respect of an act done by him or her-

- (a) in the execution or purported execution of these Regulations; but
- (b) outside the scope of the officer's employment,

the authority may indemnify the officer against the whole or a part of any damages which the officer has been ordered to pay or any costs which the officer may have incurred if it is satisfied that the officer honestly believed that the act complained of was within the scope of his or her employment.

(4) An agricultural analyst is to be treated for the purposes of this regulation as being an authorised officer, whether or not his or her appointment is a whole-time one.

Amddiffyniadau o fethiant person arall, camgymeriad etc ac allforio

35.-(1) Pan fo tramgwydd yn cael ei gyflawni gan unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn o ganlyniad i weithred neu fethiant person arall, mae'r person arall hwnnw yn euog o dramgwydd a gellir ei gyhuddo a'i gollfarnu o'r tramgwydd p'un a ddygwyd achos yn erbyn y person a enwir gyntaf ai peidio.

(2) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, yn ddarostyngedig i baragraff (3), bydd yn amddiffyniad i brofi-

- (a) y cyflawnwyd y tramgwydd o ganlyniad i gamgymeriad, neu ddibyniaeth ar wybodaeth a roddwyd i'r cyhuddedig, neu i weithred neu fethiant person arall, neu i ddamwain neu ryw reswm arall y tu hwnt i reolaeth y cyhuddedig; a
- (b) i'r cyhuddedig gymryd pob rhagofal rhesymol ac arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn i'r cyhuddedig neu unrhyw berson o dan reolaeth y cyhuddedig osgoi cyflawni tramgwydd o'r fath.

(3) Mewn unrhyw achos os bydd yr amddiffyniad a ddarperir gan baragraff (2) yn cynnwys honiad i'r tramgwydd gael ei gyflawni o ganlyniad i weithred neu fethiant person arall neu ddibyniaeth ar wybodaeth a roddir gan berson arall, ni fydd gan y person, heb ganiatâd y llys, hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw oni bai-

- (a) o leiaf saith diwrnod clir cyn y gwrandawriad; a
- (b) pan fo'r cyhuddedig wedi ymddangos gerbron llys o'r blaen mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig, o fewn mis ar ôl yr ymddangosiad cyntaf ganddo,

fod y cyhuddedig wedi cyflwyno i'r erlynydd hysbysiad yn rhoi'r cyfryw wybodaeth ag sydd gan y cyhuddedig i adnabod neu gynorthwyo i adnabod y person arall hwnnw.

(4) Mewn unrhyw achos lle yr honnir bod deunydd wedi mynd yn groes i ofynion cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig neu wedi methu â chydymffurfio â hwy mae'n amddiffyniad i'r person a gyhuddwyd brofi-

- (a) mai bwyd anifeiliaid y mae Erthygl 25 o Reoliad 183/2005 yn gymwys iddo yw'r deunydd yr honnwyd i'r tramgwydd gael ei gyflawni mewn perthynas ag ef; a
- (b) y gellid yn gyfreithlon allforio'r deunydd yr honnwyd i'r tramgwydd gael ei gyflawni mewn perthynas ag ef yn unol â gofynion Erthygl 12 o Reoliad 178/2002.

Defences of fault of another person, mistake etc and export

35.-(1) Where the commission by any person of an offence under these Regulations is due to the act or default of some other person, that other person is guilty of the offence and may be accused and convicted of the offence whether or not proceedings are taken against the first-mentioned person.

(2) In any proceedings for an offence under these Regulations it will, subject to paragraph (3), be a defence to prove-

- (a) that the commission of the offence was due to a mistake, or to reliance on information supplied to the accused, or to the act or default of another person, or to an accident or some other cause beyond the accused's control; and
- (b) that the accused took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of such an offence by the accused or any person under the accused's control.

(3) If in any case the defence provided by paragraph (2) involves the allegation that the commission of the offence was due to the act or default of another person or to reliance on information supplied by another person, the person accused will not, without leave of the court, be entitled to rely on that defence unless-

- (a) at least seven clear days before the hearing; and
- (b) where the accused has previously appeared before a court in connection with the alleged offence, within one month of his or her first such appearance,

the accused has served on the prosecutor a notice giving such information as the accused may have to identify or assist in identifying that other person.

(4) In any proceedings in which it is alleged that a material has contravened or failed to comply with the requirements of specified feed law it is a defence for the person accused to prove that the material in respect of which the offence was alleged to have been committed-

- (a) was feed to which Article 25 of Regulation 183/2005 applies; and
- (b) could lawfully be exported in accordance with the requirements of Article 12 of Regulation 178/2002.

Tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol neu bartneriaethau yn yr Alban

36.-(1) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi'i gyflawni gyda chaniatâd neu gydymddygiad y canlynol neu y gellir ei briodoli i esgeulustod ar ran y canlynol-

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg o'r corff corfforaethol; neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni bod yn gweithredu yn rhinwedd y cyfryw swydd,

tybir y bydd y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas ag unrhyw gorff corfforaethol a sefydlwyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad er mwyn cyflawni unrhyw ymgymeriad o dan berchenogaeth genedlaethol, sef corff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol hwnnw.

(3) Os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan bartneriaeth o'r Alban wedi'i gyflawni gyda chaniatâd neu gydgyllwyn partner neu y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner, tybir bod y partner hwnnw yn ogystal â'r bartneriaeth yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac yn agored i reithdrefnau gael eu dwyn yn eu herbyn neu eu cosbi yn unol â hynny.

Dwyn erlyniadau a therfyn amser ar gyfer erlyniadau

37.-(1) Heb ragfarnu unrhyw ddeddfiad yn ymwneud â'r man lle y gellir dwyn rheithdrefnau, gellir dwyn rheithdrefnau ar gyfer tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn y man lle y mae'r person a gyhuddwyd yn preswyllo neu'n cynnal ei fusnes.

(2) Ni ellir cychwyn erlyniad ar gyfer tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i-

- (a) tair blynedd i gyflawni'r tramgwydd; neu
- (b) blwyddyn ar ôl i erlynydd ei ddatgelu, ddod i ben, pa un bynnag sydd gynharaf.

Dirymadau

38. Dirymir y Rheoliadau neu'r rhannau ohonynt a restrir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

Offences by corporate bodies or Scottish partnerships

36.-(1) Where an offence under these Regulations which has been committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of-

- (a) any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate; or
- (b) any person who was purporting to act in any such capacity,

he or she as well as the body corporate will be deemed to be guilty of that offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) In paragraph (1) "director" in relation to any body corporate established by or under any enactment for the purpose of carrying on under national ownership any undertaking, being a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of that body corporate.

(3) Where an offence under these Regulations which has been committed by a Scottish partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner, that partner as well as the partnership will be deemed to be guilty of that offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

Institution of and time limit for prosecutions

37.-(1) Without prejudice to any enactment relating to the place where proceedings may be taken, proceedings for an offence under these Regulations may be taken in the place where the person accused resides or carries on business.

(2) No prosecution for an offence under these Regulations may be begun after the expiry of-

- (a) three years from the commission of the offence; or
- (b) one year from its discovery by the prosecutor, whichever is the earlier.

Revocations

38. The Regulations or parts thereof listed in Schedule 2 to these Regulations are revoked.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

6 Rhagfyr 2005

6 December 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Rheoliadau 2

Regulation 2

CYFRAITH BWYD ANIFEILIAID BENODEDIG

SPECIFIED FEED LAW

Rhan IV o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 i'r graddau y mae'n ymwneud â bwydydd anifeiliaid

Part IV of the Agriculture Act 1970 in so far as it relates to animal feeding stuffs

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2005

The Feeding Stuff (Wales) Regulations 2005

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

The Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005

Rheoliadau Rheolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol (Cymru) 2005 i'r graddau y maent yn ymwneud â bwyd anifeiliaid

The Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2005 in so far as they relate to feed

Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a gosod gweithdrefnau ym materion diogelwch bwyd, i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid.

Regulation (EC) No.178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety, in so far as it relates to feed

Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion i'w defnyddio ym maeth anifeiliaid

Regulation (EC) No.1831/2003 of the European Parliament and of the Council on additives for use in animal nutrition

Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y dilysir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid

Regulation (EC) No.882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules

Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid

Regulation (EC) No.183/2005 of the European Parliament and of the Council laying down requirements for feed hygiene

Rheoliad 38

Regulation 38

DIRYMIADAU

REVOCATIONS

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999 (1)

The Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) Regulations 1999(1)

Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999 (2)

The Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999(2)

Rheoliadau Porthiant (Gofynion Diogelwch ar gyfer Porthiant ar gyfer Anifeiliaid sy'n Cynhyrchu Bwyd) 2004 (3)

The Feeding Stuffs (Safety Requirements for Feed for Food-Producing Animals) Regulations 2004(3)

Rheoliadau 6, 7 ac 8 o Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001 (4)

Regulations 6, 7 and 8 of The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) (Amendment) (Wales) Regulations 2001(4)

Rheoliad 17 o Reoliadau Porthiant a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2001(5)

Regulation 17 of The Feeding Stuffs and the Feeding Stuffs (Enforcement) (Amendment) (Wales) Regulations 2001(5)

Rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Porthiant (Diwygio) 2002(6)

Regulations 12 and 13 of The Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2002(6)

Rheoliadau 7 i 12 o Reoliadau Porthiant (Diwygio) 2003(7)

Regulations 7 to 12 of The Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 2003(7)

Rheoliadau 8 i 10 a 14 i 17 o Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003(8)

Regulations 8 to 10 and 14 to 17 of The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis), The Feeding Stuffs (Enforcement) and The Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) (Amendment) (Wales) Regulations 2003(8)

Rheoliadau 16 i 20 o Reoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2003 (9)

Regulations 16 to 20 of The Feeding Stuffs, The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) and The Feeding Stuffs (Enforcement) (Amendment) (Wales) Regulations 2003(9)

Rheoliadau 4 i 11 o Reoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2003 (10)

Regulations 4 to 11 of The Feeding Stuffs, The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) and The Feeding Stuffs (Enforcement) (Amendment) (Wales) (No.2) Regulations 2003(10)

Rheoliadau 4 i 11 o Reoliadau Porthiant, Porthiant (Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2004 (11)

Regulations 4 to 11 of The Feeding Stuffs, The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) and The Feeding Stuffs (Enforcement) (Amendment) (Wales) Regulations 2004(11)

(1) O.S. 1999/1872.

(2) O.S. 1999/2325.

(3) O.S. 2004/3254.

(4) O.S. 2001/2253 (Cy.163).

(5) O.S. 2001/3461 (Cy.280).

(6) O.S. 2002/1797 (Cy.172).

(7) O.S. 2003/1026.

(8) O.S. 2003/1677 (Cy.180).

(9) O.S. 2003/1850 (Cy.200).

(10) O.S. 2003/3119 (Cy.297).

(11) O.S. 2004/1749 (Cy.186).

(1) S.I. 1999/1872

(2) S.I. 1999/2325

(3) S.I. 2004/3254

(4) S.I. 2001/2253 (W.163)

(5) S.I. 2001/3461 (W.280)

(6) S.I. 2002/1797 (W.172)

(7) S.I. 2003/1026

(8) S.I. 2003/1677 (W.180)

(9) S.I. 2003/1850 (W.200)

(10) S.I. 2003/3119 (W.297)

(11) S.I. 2004/1749 (W.186)

Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Porthiant, Porthiant
(Samplu a Dadansoddi) a Phorthiant (Gorfodi)
(Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2004(1)

Rheoliadau Porthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr)
(Diwygio) (Cymru) 2005(2)

Regulations 4 and 5 of The Feeding Stuffs, The
Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) and The
Feeding Stuffs (Enforcement) (Amendment) (Wales)
(No.2) Regulations 2004(1)

The Feeding Stuffs (Establishments and
Intermediaries) (Amendment) (Wales) Regulations
2005(2)

(1) O.S. 2004/3091 (Cy.265).

(2) O.S. 2005/1393 (Cy.107).

(1) S.I. 2004/3091 (W.265).

(2) S.I. 2005/1393 (W.107).

ATODLEN 3

Rheoliad 14

FFIOEDD SY'N DALADWY AM GYMERADWYAETHAU

<i>Gweithgaredd y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth ar ei gyfer</i>	<i>Ffi (£)</i>
Gweithgynhyrchu'n unig ychwanegion bwyd anifeiliaid y cyfeirir atynt yn Erthygl 10(1)(a) o Reoliad 183/2005, neu eu gweithgynhyrchu a'u gosod ar y farchnad ac eithrio y rhai a bennir yn rheoliad 2(3), neu rag-gymysgeddau o'r cyfryw ychwanegion	451
Gosod ar y farchnad ychwanegion bwyd anifeiliaid y cyfeirir atynt yn Erthygl 10(1)(a) o Reoliad 183/2005 ac eithrio'r rhai a bennir yn rheoliad 2(3), neu rag-gymysgeddau o'r cyfryw ychwanegion	226

SCHEDULE 3

Regulation 14

FEES PAYABLE FOR APPROVALS

<i>Activity requiring approval</i>	<i>Fee (£)</i>
Manufacture only, or manufacture and placing on the market, of feed additives referred to in Article 10(1)(a) of Regulation 183/2005 other than those specified in regulation 2(3), or of premixtures of such additives	451
Placing on the market of feed additives referred to in Article 10(1)(a) of Regulation 183/2005 other than those specified in regulation 2(3), or of premixtures of such additives	226

©© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.